

# GAIR MEWN GWLÂN




# Gair mewn Gwlân

'Hyffordda blentyn ar ddechrau ei daith  
ac ni thry oddi wrthi pan heneiddia':  
bydd y gwersi a gonsuriwyd â'r gweill  
yn para'n hir. Arafu'r clecian, dangos y dilyniant  
o bwyth i bwyth, yn traddodi amynedd crefft. Adrodd  
yr enwau sydd wedi tyfu o'r tir ar dai a nentydd,  
lonydd a phantiau, yn troi'n barablu nas distewir.  
Penrhyn cyfan yn llond eu cegau; llond eu pennau  
o batshys a bwythwyd yn fap o berthyn nas dilëir.  
O dywys traed ifanc i lawr y llwybrau gwyrddach,  
dilynant ffordd eu greddf i ffwrdd o dwrwr'r traffig.

O roi eu cynefin iddynt yn deyrnas mewn edafedd  
fydd ei afael ar eu dychymyg ddim yn datod.

Guto Dafydd



Cyhoeddwyd gan Ecoamgueddfa Llŷn fel rhan  
o brosiect LIVE. Derbyniodd LIVE gyllid gan  
Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Raglen  
Gydweithredu Iwerddon Cymru.

# Ecoamgueddfa Llŷn

PEN LLŷN, CARTREF  
A CHYRCHFAN

Oriel Plâs Glyn y Weddw  
Plas yn Rhiw  
Porth y Swnt  
Canolfan Felin Uchaf,  
Amgueddfa Forwrol Llŷn  
Nant Gwrtheyrn  
gyda:  
Cyngor Gwynedd  
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol  
Prifysgol Bangor

Pleser pur yw cael dweud gair ar ddechrau'r llyfr bach hyfryd hwn sy'n cofnodi misoedd o weithio a chydweithio dygn fel y cewch weld wrth ddarllen.

Penderfynu cwrdd am ginio yng nghaffi Largo, Pwllheli wnaeth Esyllt a minnau rhyw ddiwrnod i gael rhyw sgwrs bach dal i fyny a chyfle i profi bwyd ac awyrgylch caffi lleol penigamp. Doeddem ni, fel pawb arall, heb weld ein gilydd ers tro'r byd, diolch i'r cyfnodau clo – a buan y trodd y sgwrs at bethau oedd wedi bod yn ein cadw'n brysur. Datblygu a hyrwyddo Ecoamgueddfa Llŷn oedd fy 'mabi' i. Partneriaeth yw'r Ecoamgueddfa rhwng safleoedd treftadaeth sydd, gyda Llwybr Arfordir, yn coffleidio'r penrhyn a'i phobl ac yn cynnig rhywbeth mwy na gwyliau lan môr 'unrhyw draeth yn unrhyw le' i ni ac i'r ymwelwyr sy'n heidio yma.

Wrth esbonio gweledigaeth 'Ecoamgueddfa' sef modd o annog cydweithio eang a dathlu ar y cyd i adlewyrchu lle neu ardal, ei phobl a'i chymuned daeth yn amlwg fod Gweill Gobaith a'r prosiect Gair mewn Gwlân yn cyd-fynd yn berffaith ag egwyddorion a'r delfrydau ro'n i'n eu disgrifio. O Ffrainc y daeth y syniad yn wreiddiol ac yno yn 1971 y cafodd y gair ei fathu. Mae'r 'eco' yn dalfyriad o 'ecoleg' ond yn cyfeirio'n benodol at syniad newydd o ddehongli a dathlu treftadaeth ddiwylliannol yn ei holl ogoniant, yn hytrach na thrwy geiriau neu gyfnod hanesyddol penodol fel y gwelwch mewn amgueddfa draddodiadol. Ac roedd Esyllt wrthi'n disgrifio hyn ar waith mewn bywyd bob dydd – yn blethiad cyffrous o weithgaredd creadigol a diwylliannol ar draws cenedlaethau a broydd.

Dyma ddeor yr egin syniad y gallai'r ddwy ohonom gydweithio drwy i Ecoamgueddfa Llŷn gefnogi dyhead Esyllt i gael llyfr fyddai'n plethu holl elfennau'r gwaith gwau, y brodwaith a'r barddoni ac i roi llwyfan i'r bobl fu'n cymryd rhan i gael dweud eu dweud am y profiad. A fyddai'n bosib dod â hyn i gyda ei gilydd erbyn Eisteddfod Boduan 2023?

Roedd Gwenan, Swyddog Cymunedau Digidol

yr Ecoamgueddfa yn cytuno, a hi fu'n gyfrifol am bopeth ymarferol sydd ynghlwm â chyhoeddi'r llyfr. Rwy'n berffaith siŵr y bydd pawb sy'n pori yn y llyfr yn rhyfeddu at y cyfoeth sydd yma ac yn dymuno profiadau tebyg i ddathlu iaith a threftadaeth leol i'w plant nhw ac yn wir i'w cymunedau o bobl o bob oed.

Erbyn hyn mae Gweill Gobaith wedi hen ennill ei blwyf fel grŵp cymunedol o bwys i'r aelodau sy'n dod o Ben Llŷn a thu hwnt. Mawr obeithiwn mai cam cyntaf yn unig yw'r cydweithio yma yn y berthynas gyda'r Ecoamgueddfa. Gobeithio hefyd y bydd hyn yn ysbrydoli eraill, yn unigolion, ysgolion, busnesau – yn wir unrhywun, i gydweithio gyda'r safleoedd.

Mae hi wedi bod yn ffrainc fod Ecoamgueddfa Llŷn wedi gallu nodd cyhoeddi'r gwaith unigryw hwn fel rhan o brosiect LIVE. Mae mwy o wybodaeth am ein gweithgareddau a'r adnoddau amrywiol sydd wedi deillio o'r project ar ein gwefan. Ac mae croeso cynnes i bawb bob amser yn y safleoedd.

Einir Young, Ecoamgueddfa Llŷn, Prifysgol Bangor

[www.ecoamgueddfa.org](http://www.ecoamgueddfa.org)  
[www.ecomuseumlive.eu](http://www.ecomuseumlive.eu)



ecoamgueddfa 



## O Dŷ Newydd...

Mae'n ffrainc cael cyfrannu gair at gyfrol sy'n dathlu prosiect cymunedol arbennig iawn – Gair mewn Gwlân, ac mae hi wedi bod yn bleser braf iawn i ni yn Llenyddiaeth Cymru fod yn rhan o'r cynlluniau hefyd.

Mae'r enw 'Gair mewn Gwlân' yn cydio yn y dychymyg yn syth ac yn enw sy'n gweddu'r cynllun i'r dim; ond mae gweledigaeth a ffrwyth y prosiect yn gymaint mwy na gwlan a geiriau hefyd! Mae'r cynllun wedi dod â chenedlaethau gwahanol o fewn cymunedau Gwynedd at ei gilydd i ddathlu enwau a threftadaeth unigryw ein broydd. Drwy bwytho geiriau a gwlan mae'r ysgolion wedi creu murluniau hardd sydd wedi eu hysbrydoli gan enwau unigryw eu hardal.

Yn yr un modd mae trysorfa cerddi'r prosiect yn dathlu bywiogrwydd y pentrefi a'r trefi heddiw a chyfoeth eu hanes. Rydan ni'n cael ein tywys gan y plant yn falch drwy eu pentrefi yn llawer o'r cerddi ac yn profi'r gwanwyn drwy eu llygaid. Mae cerddi eraill yn cofio ac yn dathlu hanes diwydiannol pwysig, cymeriadau cofiadwy neu chwedlau gwerin. Mae'r enwau unigryw sy'n perthyn i bob bro yn atseinio drwy'r cerddi ac maen nhw ar gof a chadw bellach – ar gadw yn y murluniau a'r cerddi ac yn nghof ein plant cynradd.

Wrth gynllunio Gair mewn Gwlân roedden ni'n gwybod bod athrawon yn gallu bod ychydig yn ofnus weithiau o sgwennu cerddi gyda phlant, felly roedden ni'n gweld y prosiect yn gyfle i gynnig hyfforddiant gan arfogi'r athrawon. Fe gynhaliodd y bardd Casia Wiliam weithdai yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd am sut i gyflwyno barddoniaeth yn y dosbarth a chreu cerddi trawiadol a syml. Roedden nhw'n sesiynau gwych gyda'r athrawon yn dysgu dulliau newydd o ysgogi'r plant ac yn ennyn hyder wrth gael eu

hatgoffa am ffurfiau gwahanol.

Roedd y gweithdai yn gyfle prin i athrawon o ysgolion gwahanol ddod at ei gilydd a chael hyfforddiant creadigol, roedd hynny – a bisgedi cartref Tŷ Newydd wedi cael ei werthfawrogi. Wrth i'r Cwricwlwm i Gymru ddatblygu, fe hoffai Llenyddiaeth Cymru gynnig mwy o gyfleoedd tebyg i athrawon yng Nghanolfan Tŷ Newydd; rydan ni wrth ein boddau yn croesawu ysgolion lleol i Lanystumdwy.

Fe wnaeth Llenyddiaeth Cymru gynnig nawdd i ysgolion y prosiect i wahodd bardd i gynnal gweithdy gyda'r plant gan gynnig talu 50% o'u ffi hefyd. Bu nifer o feirdd lleol mewn ysgolion yn helpu'r plant i lunio cerddi sydd i'w gweld yn y gyfrol hon.

Mae'n diolch ni yn fawr i athrawon a staff ysgolion y prosiect, maen nhw wedi gweithio'n galed i gasglu enwau a chreu cefnenni a cherddi hardd a thrwy hynny maen nhw wedi rhoi profiadau cyfoethog i'w disgyblion. Yn bennaf mae ein diolch i'r gwirfoddolwyr ymroddedig o Bwyllgor Llên Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd sydd wedi gwireddu'r cynllun drwy eu holl waith caled – yn arbennig i Esyllt Maelor am ei gweledigaeth, ei charedigrwydd a'i gwaith diflino.

Mared Roberts,

Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd, Lanystumdwy

 Llenyddiaeth  
Cymru  
Literature  
Wales

# Gweill Gobaith



## Dychryn braf

Wyddoch chi be, mae'r prosiect yma wedi fy nychryn i. Dychryn braf ydi o dwi'n prysuro i ddweud. Dwi wedi gweld sut y gall un pwyth (neu 'fasga' fel y bydd pobl Llŷn yn ei ddweud) droi'n res ar weill neu'n gadwyn ar fachyn, gan dyfu mwya sydyn yn sgwâr a datblygu'n gefnlen. Dwi wedi sylweddoli be all un cwestiwn mewn sgwrs ymhlith criw bach o bobl sy'n digwydd cyfarfod ar foreau Mercher gyflawni. 'Be fedran ni neud i helpu'r Eisteddfod gan gofio mai Gweill Gobaith ydan ni?' Dyna ofynnwyd.

Mi wnes ddychryn i ffitiau wrth weld yr holl e-byst yn cyrraedd o bob ewr o'r byd; pobl yn ymateb i'r apêl am sgwariau wedi'u gweu neu eu crosio. Un hysbys ar y cyfryngau cymdeithasol yn creu'r ffasiwn ymateb! Cyrhaeddodd y sgwariau mewn bocsys a bagiau o bob ewr o'r wlad, heb sôn am y rhai oedd yn cael eu gadael ar bostyn giât, yn y garej ac yn y porj. Dyma sylweddoli fod rhaid trefnu manau danfon a chodi parseli ac mi ddaeth Yr Orsaf, Penygroes a Llyfrgell Caernarfon i'r adwy. Ydi, mae pobl yn ffeind, yn gymwynasgar ac yn cerdded yr ail filltir arall i helpu.

Mae yna grwpiau gweu wedi cyfrannu a chynhyrchu sgwariau sy'n ddigon o ryfeddod ond mae yna bobl hefyd sydd wedi bod wrthi'n creu yn ddistaw bach adra. Argian beth petasa'r pwythau yn gallu siarad? Heb os,

mae i bob pwyth ei stori ei hun.

Os mai pobl a chymunedau fu'n rhoi a byw y gwlan, rhoi geiriau ac enwau wnaeth yr ysgolion. Gobeithio y cewch gyfle i weld yr enwau hyn ar y cefnlenni. Maen nhw yno ac mi fydden nhw'n canu yn eich clustiau – yn enwau porthoedd a phyllau, ogofau a chreigiau, ffermydd a ffynhonnau, caeau, afonydd, moelydd a phonciau chwarel. Disgyblion ysgolion y prosiect fu'n devis yr enwau ac yna'n mynd ati gyda chymorth cyfeillion yr ysgol i'w brodio, eu gwnïo a'u gosod ar y cefnlenni. Mae oriau o lafur cariad yma. A tydw i ddim wedi sôn am y cerddi eto! Maen nhw yma rhwng y tudalennau yn aros i chi droi atyn nhw.

Hen air digon diddim ydi prosiect. Mae cymaint yn ei ddefnyddio a rhywsut mae wedi colli'i ystyr ac mae'n llawn synau strategol a chorfforaethol. Na, nid prosiect mo Gair Mewn Gwlan. Mae'n llawer mwy na hynny. Mae yma gyd-ymwneud, mae yma bontio cenedlaethau, mae yma rannu, mae yma ddangos ac mae yma ddatlu. Mae yma gadw cof ac oes, mae yma waddol ac mae'r cyfan wedi deillio o un cwestiwn a chychwyn gydag un pwyth. Do, dwi wedi dychryn a dychryn braf ydi hwnnw.

Esyllt Maelor, Morfa Nefyn

## Ymhyfrydu mewn enwau

Lle bynnag yr awn ni'n y byd, byddwn yn siŵr o ddod ar draws enwau lleoedd. Pethau defnyddiol ydyn nhw, yn ein helpu i ganfod ein ffordd o un lle i'r llall ac maen nhw'n dweud wrthym lle'r ydan, yn ddaeryddol ac yn ddiwylliannol.

Dros y blynyddoedd diwethaf, daeth gwarchod enwau lleoedd yn dipyn o destun trafod yma yng Nghymru. Fel sawl agwedd o'n treftadaeth ddiwylliannol, y pethau hynny sy'n cyfleu perthynas dynoliaeth gyda'r tir dros genedlaethau, does dim deddfwriaeth benodol yn ei lle i warchod enwau lleoedd. Mae gweld yr enwau yn cael eu colli, eu diystyru a'u newid yn teimlo fel sarhad a thros amser, caiff y teimlad o berthyn i le neu hunaniaeth bro, ei erydu.

Yn Llŷn ac Eifionydd, mae cyfoeth enwau lleoedd y fro yn britho mapiau a llên gwerin yr ardal. Cysylltiadau arfordirol, morwrol, amaethyddol, chwedlonol a diwydiannol, mae stôr o wybodaeth am hanes a straeon yr ardal ar gof a chadw drwy ein enwau lleoedd. Er mwyn gwarchod yr enwau hyn a chodi ymwybyddiaeth ohonynt ymysg y genhedlaeth ieuengaf, sefydlwyd prosiect Gair Mewn Gwlan gan griw Gweill Gobaith, sy'n cyfarfod yn rheolaidd ym Morfa Nefyn, i wau a chrosio dros achosion dyngarol. Wedi cyflawni sawl prosiect dros achosion rhyngwladol, trodd y criw eu golygon am adref, er mwyn datblygu prosiect creadigol ar gyfer Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd 2023.

Crëwyd carthenni swmpus o sgwariau gwlanog i'w danfon i ysgolion cynradd y dalgylech, gan wahodd y disgyblion i'w haddurno gydag enwau lleoedd eu cymunedau. Mae'r gweithiau gorffenedig yn drysorau a'r amrywiaeth o ran enwau ac arddull yn fendigedig! Mae gweld yr enwau yn dwyn atgofion plentyndod i gof ac mae'n galonogol iawn gweld y plant yn dysgu am ac ymhyfrydu yn enwau eu broydd. Mynnwch gyfle i'w gweld a'u gwerthfawrogi wrth ymweld â'r Brifwyl – welwn ni chi ym Moduan!

Naomi Jones, Llannor





# Y dwylo tu ôl i'r dafadd

Criw Gweill Gobaith, Morfa Nefyn  
Sgwrs, panad, cwmni ffeind, rhannu, gobaith.

- 'Pwy ydan ni? Ann o Monaghan, Iwerddon, Fflur o Landwrog, Eirian ac Esyllt o Abersoch, Myfanwy o Benrhyndeudraeth, Meinir, Rhian a Mai o Gwm Nantcol, Helen o'r Ffôr, Gwen o Gilan, Lis o Bwllheli, Mair a Jeanette Nefyn, Laura Wyn Langwinnadl, Siân Fflur o'r Morfa, Naomi o Gricieth, Elen o Golan, Jane o Amlwch, Angela o Borth Tywyn, Ann o Lanelli, a Janet o Fangor ac Abertawe. Er fod pawb yn byw mewn llefydd gwahanol erbyn hyn rydan ni'n dal i gario yr ardaloedd yma lle cawsom ein magu efo ni ac yn mynd â phawb yno efo ni am dro bob hyn a hyn.'
- 'Rydan ni wedi mynd am dro i Lerpwl am fod sawl un wedi gweithio yno. Mi fuo un yn gweithio fel 'Trainee Buyer' yn Siop Lewis a mi fuo rhai yn nyrsio yno. Dyna Myfanwy Humphreys aeth yno yn syth o Ysgol Bermo neu'r Barmouth Grammar School i nyrsio yn Ysbyty Alder Hay, Lerpwl am gyflog o £5 y mis. Canlyn ei gŵr Robert oedd hi bryd hynny ac yntau'n dysgu yn Ysgol Chitroad.'
- 'Rydan ni'n dod i nabod a rhannu geiriau efo'n gilydd. Mi gawson sgwrs hir un waith am **drontol** sef clust ar gwpan. Roedd o'n air newydd sbon i ambell un.

- Mi fuo **brochus** yn destun trafod hefyd - mi roedd hi'n frochus tua Phorthdinllaen y diwrnod hwnnw a wedyn mi gawson ddiwrnod **tuddiad** yn trafod pa mor aml y dylsen ni newid cas gobennydd. **Tuddiad** - ia cas gobennydd ydi hwnnw!'
- 'Mae na lot o bobl yn gwybod amdanon ni erbyn hyn. Tydi ffrindiau ddim yn ffonio fi ar fore dydd Mercher rŵan - maen nhw'n gwybod mod i'n Gweill Gobaith.'
- 'Mair ydi'r bancar. Mae 'na fwy na chowntar banc yn ei phoced.'
- 'Awn ni weld y bobl ffeind ia,' geiriau Meinir wrth fynd â'i wyres at griw Gweill Gobaith.
- 'Croeso cynnes mewn cyfnod anodd.'
- 'Profiad amheuthun ac mae'n help meddyliol. Mae 'na ambell un sydd ddim yn gweu ond does dim ots am hynny, y cwmni sy'n cyfri. Mae dwy yn dod o Sir Fôn ac mae hi mor braf eu gweld - maen nhw hefyd yn dŵad a'u croeso efo nhw.'
- 'Bryn Noddfa - enw cartrefol, enw addas. Mi fuo'n Fairways am gyfnod ond diolch byth mae o'n Bryn Noddfa eto. I Huw a Jon y perchnogion newydd mae'r diolch am hynny. Mae nhw wedi agor drysau Bryn Noddfa i'r gymuned.'

# Cynnig Gobaith

Clywsoch sôn am Gynhadledd y G7 yn Siapan yng Ngwanwyn 2023 ond a glywsoch sôn am G.G? Wel, Gweill Gobaith yw G.G. gan bwysleisio'r gair Gobaith - elfen sydd ei gwir angen ar bawb ym mhob rhan o'r byd y dyddiau cythryblus hyn. Ffurfiwyd Gweill Gobaith yn wreiddiol dan adain Merched y Wawr, Morfa Nefyn ac yna ymunodd mwy o bell ac agos. Erbyn hyn mae'r grŵp yn cyfarfod bob pythefnos yng nghlydwech gwesty Bryn Noddfa ym Morfa trwy garedigrwydd y perchnogion Huw a John.

Ond beth yw'r gweill yma a sut mae gobaith yn plethu i'r teitl? Wel mewn cwmniâeth hyfryd gyda chyfle i sgwrsio, hel atgofion, a chyflwyno ymadroddion ddifyr o wahanol ardaloedd, 'rydym yn gafael yn ein gweill ac yn gwau neu'n crosio. Mae yna ystod o safonau (dwi'n arbenigwraig ar golli pwythau!) ond bydd pawb yn fodlon helpu mewn amrywiol ffyrdd - darganfod pwythau colledig, dilyn patrwm, efallai dysgu crosio o'r newydd neu adnabod pwyth anghyffredin mewn awyrgylech hapus, byrlymus ac arogl coffi! Ond i ba bwrpas? Wel mae'r grŵp wedi creu eitemau sy'n cynnig gobaith boed yn Wcraïn neu Afghanistan yn cynhyrchu blancedi a dillad ar gyfer babanod a phlant ifanc. Ac yn nes adra, cefnogwyd Baby Basics yng ngogledd ddwyrain Cymru gyda charedigion yn cario'r boesys o nwyddau i ganolfannau pwrpasol. Mae nifer o bobl garedig yn cyfrannu bagiau

o wllan at ein defnydd chwarae teg. Braff gwybod bod na gysur a gobaith am gynhesrwydd a diddosrwydd yn y dilladau a'r blancedi amrywiol.

Ond dyma sôn am Steddod - cynnig gobaith yw nod ein gwaith felly sut oedd cyplysu Steddod â Gobaith? Gwau baneri? Pa obaith oedd i faneri pe bai Ili Awst?! Addurno coed? Ond pwy all ragori ar brydferthwch naturiol coeden? Bu cyd drafod. A'r canlyniad? Gwau sgwariau i'w gwneio yn gefnlenni - cefnlenni i bob ysgol yn nalgyleh yr Eisteddfod. Ond pam cefnlen? Ein plant yw ein gobaith at y dyfodol - a beth am glywed a gweld llais y plant ar y cefnlenni. Gosodwyd enwau caeau, ffermydd, porthoedd ac adeiladau o bwys ar y cefnlenni. Aeth yr ysgolion ati i gydweithio efo beirdd a chyfansoddi barddoniaeth am yr enwau hyn a dyma gyplysu llên gyda hanes a straeon lleol a'u rhoi ar gof a chadw. Ffordd hyfryd o ennyn plant i barchu'u hangylchfyd, dysgu arwyddocâd enwau lleol a deall pwysigrwydd diogelu enwau rhag cael eu hamharchu gan estron. Bydd yr Eisteddfod yn lwyfan i arddangos y cefnlenni, rhannu cerddi'r plant a thrwy hynny lledaenu cyfoeth yr ardal - ardal sy'n cael ei bygwth fwy fwy gan fewnlifiad.

Ein plant yw ein gobaith am barhad ein hiaith a'n diwylliant.

Janet Hughes, Nefyn



## Pellen sy'n clymu

Pellen o ddaffadd sy'n clymu'r hen, y canol oed a'r ifanc a hynny ar draws cymunedau ydy Gweill Gobaith.

Pellen sy'n clymu cymunedau o Llyn i Fôn, ac oherwydd fod yr aelodau wedi cael eu geni a'u magu ar draws Cymru benbaladr, mae'n fodd i bontio ar draws sawl cenhedlaeth o ran oedran, cefndir, galwedigaeth a phrofiadau.

Grŵp sydd wedi datblygu i drafod mwy na phatrymau gweu a chrosio, rhannu pwythau a sgiliau.

Mae'n gyfle i rannu straeon difyr am yr ardaloedd lleol y mae'r aelodau'n hanu ohonynt. Dod i adnabod cymeriadau difyr o'r ardaloedd hynny a chlywed am draddodiadau gwahanol. Trafod arferion amrywiol slawer dydd, y digri a'r difri, a hynny wrth gymdeithasu'n braf a chlên. Pytiau o sgysiau ar hap y mae'n bwysig eu cofnodi i'r dyfodol fel darnau bach o hanesion ardaloedd.

Ond rhag i chi feddwl mai dim ond siarad sy'n mynd ymlaen y mae prosiectau pwysig wedi'u cyflawni.

Crëwyd dillad a blancedi ar gyfer ffoaduriaid Weráin, elusen 'Baby Basics' Dyffryn Clwyd a chefnenni ar gyfer ysgolion Llŷn, Eifionydd ac Arfon fydd yn cael eu defnyddio i arddangos enwau cynhenid o'r ardaloedd ar gof a chadw ac yn fodd felly i gadw'r enwau'n fyw i ddisgyblion heddiw ac i'r dyfodol.

Pwythau a lliwiau sydd yr un mor amrywiol a lliwgar â'r aelodau sy'n cael noddfa gynnes yng ngwesty Bryn Noddfa, Morfa Nefyn lle bydd y bellen yn ein clymu, gobeithio, am amser hir.

Eirian Howells, Stâr, Gaerwen

## O Langefni i Fryn Noddfa

Dwi mor falch o gael dweud mod i'n aelod o griw prysur Gweill Gobaith. Dwi wedi cael croeso arbennig gan y criw ac yn teimlo mod i wedi cael criw o ffrindiau newydd. Mae yna gampweithiau yn cael eu creu ac mae'n bleser mynd at y bwrdd ym Mryn Noddfa, Morfa Nefyn i weld y dillad, y capiau, a'r plancedi sydd wedi eu crosio a'u gweu. Mae'r dillad yma wedi cyrraedd teuluoedd anghenus yn y wlad yma ac mewn gwledydd sy'n dioddef rhyfeloedd enbyd.

Bob pythefnos rydan ni'n cyfarfod ac mae pawb yn edrych ymlaen i gael mwynhau'r gwmniâeth, y sgysiau y gweu a'r crosio. Yn ddiweddar, sgwariau mae pawb wedi bod yn eu paratoi a hynny ar gyfer prosiect sy'n golygu cydweithio ag ysgolion yn nalgylch Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd. Mae yn brosiect mor ddifyr ac yn ffordd o gadw enwau yn ein hardaloedd ar gof a chadw ar gefnlenni. Braf yw meddwl mai'r sgwariau rydym ni ac eraill wedi bod yn eu gweu a'u crosio sy'n dal y geiriau hynny. Mae'n bleser gweld y cefnlenni - maen nhw'n lliwgar ac amrywiol a phob un yn unigryw yn union fel y bobl hynny sydd y tu ôl i'r pwythau. Mi oedd gen i ddiddordeb arbennig yng nghefnlen Ysgol Llandwrog, yr ardal lle ges i fy magu. Braf oedd gweld enwau cyfarwydd - yn ffermydd a thai yr ardal, ar gof a chadw. A dwi'n siŵr y bydd y plant gymrodd ran yn y pwytho ac yn creu'r gerdd yn cofio'r enwau am flynyddoedd.

Fflur Mai Hughes, Llangefni

## Canolbwyntio ar y pethau pwysig

Mi fydda i yn edrych ymlaen i fynd i Bryn Noddfa bob yn ail ddydd Mercher. Dwi wedi ymddeol ers canol y cyfnod clo ar ôl blynyddoedd o weithio yn y 'sector wirfoddol' neu'r 'sector gymunedol'. Mae fy ngwaith wedi rhoi darlun i mi o gymaint o bethau sy'n digwydd ac yn cael eu cynnal yn wirfoddol. Mi roddodd y cyfnod clo gyfle i rywun sylweddoli nad oes dim angen hanner cymaint o bres i fyw a 'dan ni'n feddwl. Felly rŵan dwi'n mwynhau llenwi fy amser gyda phethau dwi'n fwynhau wneud.

Dwi wrth fy modd yn garddio a gwneud pob math o grefftai - gweu, crosio, gwnio. Felly mi neidiais am y cyfle i ymuno efo'r criw Gweill Gobaith. Rydan ni'n dod at ein gilydd i greu dillad a phlancedi ar gyfer unrhyw un mewn angen. Ond y sgwrsio dwi'n fwynhau fwyaf. Cael hanesion difyr gan bobl fel Gwen Cilia, a chael dadlau gyda Myfanwy Tal am y Teulu Brenhinol.

Pnawn ma mi gawson ni 'chydig o gamddealltwriaeth -

*'Fues i'n siarad efo'i fam o.'*  
*'Ond ma'i fam o wedi marw dydy!'*  
*'Mam pwy?'*  
*'Mam y Brenin.'*  
*'Dim y Brenin! Mam Bryn Terfel!'*

Cwmni difyr, cyfle i hel straeon. Dyna sy'n gwneud cymuned. Dwi'n teimlo bod ni'n canolbwyntio ar bethau pwysig bywyd yma, cymdeithasu a gwneud cyfeillion. Pobl ffeind.

Diolch am gael bod yn rhan o'r gymuned fach yma.

Meinir Jones (Giatgoch) Ceidio

# Sgyrsiau Bryn Noddfa

## Mrs Fischer y sbei o Lithfaen

Mae hanes Mrs Fischer wedi cyfareddu criw Bryn Noddfa. Gwen Jones Parry, Gwen Riffli i rai a Gwen Cilia i eraill a Myfanwy 'Tal' Jones sy'n dweud yr hanes.

**Myfanwy:** Yn ôl y sôn o Faentwrog neu o Sugyn Fawr, Beddgelert ddaeth hi a mae 'na straeon fod Hitler wedi bod ym Maentwrog does? A dod i Garreg Llam wnaeth hi. Roedd hi'n ddynes ddawnus yn chwarae'r ffidil, yn nyddu ac yn tynnu lluniau. Mi fyddai'n mynd am dro ei hun bach efo isl i beintio am yr Eifl er mwyn cael golygfeydd o'r topiau 'na. Doedd 'na neb yn cael amharu ar ei phreifatrwydd hi a doedd hi ddim yn gwneud llawer efo neb. Roedd ganddi lond gwlad o gŵn a rheiny yn rhai mawr a byddai'n cerdded y cŵn i'r siop yng nghanol Llithfaen. Roedd 13 o siopau yn Llithfaen ers stalwm.

**Gwen:** Mi fydda ngŵr i, Bob, yn dal cwningod iddi ar gyfar bwydo'r cŵn ac yn eu gadael wrth ddrws y tŷ. Fair Winds oedd enw'r tŷ, bynglo pren oedd o ac mae'r ffaith ei fod o'n un pren yn bwysig yn y stori. Mi fydda Gwenda Ty'n Lôn yn hel gwlan iddi o'r caeau ac mi fydda hi'n nyddu efo'r gwlan. Mi briododd Gwenda ac mi aeth i fyw i Telford. Mi roth Mrs Fischer ddefnydd iddi fynd efo hi. A ma'n fwy na darn o ddefnydd, ma'n sgarff a gwlan Cilia sydd ynddo fo ac erbyn hyn mae'r sgarff wedi landio nôl aew yn Lithfaen. Mae rhywun wedi awgrymu a holi os oedd *morse code* yn y patrwm! Roedd Mrs Fischer yn *top of the range* lle roedd brêns yn y cwestiwn. Roedd hi'n ddipyn o ben. Yna mi ddiflannodd yn llythrennol dros nos. Aeth ei thŷ ar dân a wyddoch chi be, roedd 'na olion gweddillion cŵn yno ond doedd yr un asgrwn dynol ar gyfyl y lle. A pan dachi'n meddwl am y peth dim ots faint o dân sydd, anodd iawn ydi dileu pob arlliw o gorff dynol. Mae rhai yn dweud i Mrs Fischer adael mewn llong i'r Almaen ganol nos. Does wybod. Mae 'na gae yn Cilia a chae Mrs Fischer ydi enw fo.

**Myfanwy:** Y noson aeth y tŷ ar dân roedd 'na griw yn llwytho llong yng Ngharreg Llam. Roedd y tŷ

yno pan oedd y criw'n pasio tua i y bore – roedden nhw'n gorfod mynd efo'r llanw. Beth bynnag rhwng 2-3 yn y bore dyma Gwylwr y Glannau Porthdinllaen yn sylwi fod 'na fwg yn codi wrth ymyl Mynydd y Bwlch, Llithfaen a dyma ffonio Mr Dean i holi. Goruchwyliwr Chwarel Carreg Llam oedd hwnnw. Cafwyd wybod wedyn fod Fair Ways, cartref Mrs Fischer wedi llosgi'n ulw. Mae 'na stori iddi fadal mewn sybmarin ond stori ydi honno. Roedd pobl yn dweud fod ganddi fab yn y llynges Almaenig – roedd rhywun wedi gweld ei lun o ac roedd o'n reit uchel yn y llynges medda nhw. A stori arall yw fod y Cadlywydd Goering wedi ymweld â hi pan oedd yn byw ym Meddgelert.

**Myfanwy Jones, Morfa Nefyn, a Gwen Jones Parry, Llithfaen**



## Mynydd Cilan a Chilandiars

Gwraig ddawnus, drwsiadus sy'n gwnio pob dilledyn ei hun yw Gwen. Gall droi cyrtans mewn siop ail law neu hyd yn oed fleind ystafell ymolchi yn ddilledyn hardd. Magwyd Gwen ar fferm Riffli, Cilan ac ar ôl priodi aeth i fyw i Ciliau Llithfaen. Roedd ei mam, Gwladys Williams, â dawn dweud a hi oedd awdur y llyfr *Dest Rhyw Air*. Mae'r un ddawn dweud gan Gwen, a does dim dwywaith fod ganddi ddawn y cyfarwydd i ddweud stori. Mae'r hanesion hyn wedi'u cofnodi yn union fel y'i rhannwyd gan Gwen.

### Ieir Mynydd Cilan

Roedd 'na Sais wedi meddwl cadw Mynydd Cilan iddo'i hun. Roedd hyn ar ôl y Rhyfal Byd Cynta a dyma fo'n dechra codi cloddiau ar ben y mynydd ond mi ddoth pobl Cilan yno a'u chwalu nhw... roedd hyn yn digwydd bob noson. Yn y diwedd bu raid cael plusmyn yno.

'Symud y diawl neu mi fydd y rhaw ma wedi mynd drwyddat ti.' Dyna ddwedodd un Cilandar, dynes reit nobl o'r enw Lowri Lôn Las wrth y plusman.

Yr un Sais roddodd gyntiau ieir ymhob man – isio meddiannu a hawlio'r lle iddo'i hun oedd o. Roedd Ifan Lôn Las yn un o'r bobl chwalodd y cyntiau ieir. Roedd nhw yn eu taflu nhw dros ben rallt i'r môr. Roedd y cyntiau i'w gweld yn nofio ar donnau Porth Neigwl a iâr ar ben amball un.

### Ifan Lôn Las, Cangen Plaid Cymru, Cilan a Roy Glo

Ifan Lôn Las... ia cymeriad oedd hwnnw. Roedd Ifan Lôn Las isio sefydlu Cangen Plaid Cymru yn Cilan. A dyma gael cwarfod yn Festri Capel Cilan i drefnu pethau. Mi drefnodd bod 'na ddyd yn dod yna i

annerch. Ond chydig ddaeth. A be ddwedodd Ifan, 'Fela ma'r diawl. Yn gaddo dŵad yn fy wynab a dim yn dŵad yn diwadd.'

Blynnyddoedd lawar wedyn dwi'n cofio Roy Glo yn peintio'i lori efo poster i R. E. Jones. Fo dwi'n ama oedd ymgeisydd cyntaf dros Blaid Cymru yn y pen yma a rhywun yn dweud wrtho,

'Be ti'n neud peth mor wirion? Fasa neb ond chdi a Gwladys Wiliam Riffli yn fotio iddo fo.'

### A dyma be ddudodd Roy

'Dim otj. Cofiwch mai dim ond deuddeg disgybl oedd gan Iesu Grist. Mae criw bach yn gallu gneud petha mawr.'

### Cnebrwn Ifan Castall

Mae'r hanes nesa yn dal i fynd at fy nghalon i. Dwi'n cofio Ifan Castall yn marw. Mae genni lun o Ifan Castall a chrogan ar ei lygad o. Beth bynnag, mi gath gnebrwn mawr. Roedd rhywun yn cael mynd i gnebrwn mawr – roedd rhaid cael gwahoddiad i gnebrwn bach a mi roedd 'na gynhebryngau i ddynion yn unig – siofinistaid iawn yn de?

'Ddoi di?' medda Sera.

'Ddoi i,' meddwn i.

Roedd Sera tua 15 oed a finna tua 10 oed.

A dwi'n cofio hi'n gweiddi o ben gamfa arna i, 'cofia bo chdi i roi dillad dydd Sul.'

Ac mi es a dwi'n cofio gweld pawb yn sefyll yn dociau ar y mynydd o gwmpas Castall a dyma drws y bwthyn yn agor, bwthyn bach oedd o, a Tomos Corn yn cerdded allan a het ar ei frest. Wedi iddo ddod drwy'r giât dyma fo'n dechrau canu 'O fryniau Caersalem', a phawb yn ymuno efo fo. Dyna brofiad wna i fyth anghofio. Wedyn dyma nhw'n cario'r arch i rwla dim yn bell o Castall. Aethon ni am adra wedyn.

### Penillion

Cofiwch mai tyddynnod bach tlawd oedd yn Cilan yn sbio ar diroedd toreithiog, mi oedd bywyd yn galad yno a phobl yn gorfod gweithio'n galad.

Tra bo'r haul yn tywynnu'n felyn ar ben sgubor Jâms Bryn Celyn, tra bo cynffon wrth din mulfran, nid aiff diogi byth o Gilan.

Cleriach\* Cilan Uchaf  
ddwedodd wrth ei was,

'Pe cawsw'n fynd i'r nefoedd  
fasa'n well genni Neigwl Plas.'

\**Cleiriach – hen w'r musgrell, dyna'r diffiniad yma ond gall olygu rhywun slei a dan dîn hefyd.*

### Amsar Rhyfal

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, roedd yr ohebiaeth i gyd yn Saesneg a mi fydda pobl Cilan yn dod i Riffli gyda'r nos i sgwrsio ac yna y peth dwytha un, jest cyn mynd am adra mi fydda chi'n gweld ambell un yn mynd i boced ei gôt ac yn dweud, 'Mae gini *form* yn fama...oes posib i chi gael golwg arni?' Doedd gan sawl un ddim *guess* faint o aceri oedd ganddyn nhw ond mi wyddan nhw sawl cae oedd nhw wedi'i aredig ac oes oedden nhw'n aredig hyn a hyn, mi fydden nhw'n cael rhyw grantiau. Ia gadal y petha pwysica tan diwedd un yn de a siarad am bob dim ond hynny.

### Bwgan Lôn Groes

Roedd pawb ofn mynd heibio Lôn Groes. Yn ôl y sôn roedd 'na wraig a'i babi yn teithio ar y lôn mewn ceffyl a throl ond mi fowltiodd ci o flaen y ceffyl. Collodd y wraig a'r babi eu bywydau.

Ond roedd 'na dynnu coes am fvganod hefyd fel mae'r pennill nesaf yn dangos:

'Mi rwygais y gynfas nes oedd hi fel rhwyd,  
Pwy feddyliwch oedd dani ond Now Garreg Lwyd.'

A be wnewch chi o'r rhybudd codi ofn yma  
ddwedwyd

'Waja di gerad wrth ymyl Pant Tanbryn yn y nos, mi glywi di lais yn sibwrdd dau air.'

'Pa ddau air?' medda ynta gan ofyn a gofyn.

'Chei di'm gwbod. Ond gei di wbod ryw ddiwrnod pan fydd hi wedi siarad efo chdi.'

### Professor Henn yn Riffli

Mi fyddai'r Professor Thomas Rice Henn a'i blant yn dod i aros i Riffli dros yr haf – dŵad fel ifaciwis yn ystod y Rhyfel oedden nhw. Mi roth Professor Henn y gorau i fod yn Broffesor yng Nghaergrawnt a mynd i'r fyddin. Anglo Irish oedd o ac yn awdurdod ar W.B. Yeats. Roedd Mrs Enid Henn yn drwyddedig i ddysgu ei phlant adra ac mi fyddwn i yn cael mynd atyn nhw i gael gwersi Ymarfer Corff. Tua 5-6 oed oeddwn i a dwi'n cofio cael gwersi ar ben y bryn. Roedd ganddyn nhw ferlen fach handi o'r enw Topsy ac mi fydda i hi yn y stabal efo ein hen geffyl gwedd ni.

Mi fydda Mam yn cael mynd am dro efo Mrs Henn mewn *pony trap* am Rabar. Doedd Mrs Henn yn nabod neb ond mi oedd Mam yn nabod pawb ac mi fydda Mam yn codi llaw ar Lisi May a phawb tan ddudodd Mrs Henn wrthi, 'Stop acting like royalty.'

Mi fyddai Professor Henn yn dod ar *leave* i Riffli a radag honno roedd gan bawb *gas masks*. Mi fyddai Mrs Watkin-Edmunds yn inspectio'r *gas masks* er mwyn gweld os oedd nhw mewn cyflwr da. Ac mi ddoth i Riffli ac er i Mam, chwilio roedd hi'n methu cael hyd iddyn nhw. Doedd nhw ni ddim yn eu defnyddio nhw. Mi glywodd Professor Henn hi'n dweud, 'You peasants – you don't look after your things.' A dyma fo'n troi ar Mrs Watkin-Edmunds a dweud, 'You now are speaking to Colonel Henn – there's the door.'

### Enwau Cilan

Mae 'na lawer o hen enwau sy'n cysylltu efo'i gilydd yn Cilan – Gadlys, Parc y Brenin a Castell. Mae tri chastell yno. Dwi bron yn sier fod bryngaer yno – ac wrth gwrs mae yno gromlech.

### Bwlchtocyn

Roedd pobl Bwlchtocyn yn wahanol. Dwi'n cofio mynd adra o'r ysgol un diwrnod a ninna wedi cyrraedd y cwt glo. Ac mi ddoth plant Bwlchtocyn aton ni a gweiddi o ben y bryn, 'Eweh adra y tacla budron.' Ac am ein bod ni lawr yn gwaelod roedden ni yn methu rhedeg i fyny ar eu holau nhw.

Gwen Parry Jones, Llithfaen







## Sêr Siân Fflur

Mae na un seren fawr yn fy mywyd i. Ei enw fo ydi Bryn Terfel. Mae o'n perthyn i mi. Ro'n i tua wyth oed pan glywis i Westlife yn y Faenol, dwi'n ffan mawr ohony'n nhw. Bryn Terfel oedd yn trefnu'r Faenol.

Wedyn yn Ysgol Nefyn wnes i ddod i wybod am Ioan Gruffydd - dwi ddim 'di gyfarfod o, ond mae nghyfeithar i wedi gneud. Fo oedd fy arwr i pan o'n i'n teenager.

Ar ôl Westlife wnes i lecio Iona ac Andy. Dwi wedi cyfarfod nhw. A wedyn Elin Fflur ym mlwyddyn 7. Wnes i ei chyfarfod hi gynta yn Clebran, grŵp Anabledd Dysgu Barnados efo Julie Mair. Ers hynny dwi yn ei dilyn hi a'i chyngherddau hi. Pan es i un o'i chyngherddau, nath hi gyflwyno un gân i mi. Y gân oedd 'Angel'. Nathon ni ddod yn ffrindiau wedyn.

Ar ôl Elin Fflur nes i ddechrau lecio Caryl Parry Jones. Dwi wedi cyfarfod hi un waith. Hen ffrind ysgol i Mam yn Ysgol Glan Clwyd ydi Caryl Parry Jones.

Mae'n rhaid i mi sôn am Dylan Morris. Mae o'n olygus ac yn gallu rhoi teimlad yn ei ganeuon. Nath ei ganeuon

helpu fi lot yn ystod y cyfnod clo. Wedyn nes i lecio John ac Alun. Mae Alun yn perthyn i mi o bell. Mae John wedi peintio'n llofft i. Mae gan John ac Alun gân sy'n sôn am Benrhyn Llŷn. Dyma un o fy hoff ganeuon.

Yn ddiweddar dwi 'di lecio Bronwen Lewis - nes i weld hi yn Aberystwyth yng Nghanolfan y Celfyddydau. O ia, rhaid i mi sôn am Shân Cothi! Nôl yn 2008 yn Steddfod Caerdydd wnes i gwarfod Shân a dwi bod yn ei chyngherddau hi a rydan ni wedi helpu'n gilydd efo galar yn ein bywydau ni a dwi'n ffrindiau Facebook efo hi hefyd.

**Siân Fflur Roberts, Morfa Nefyn**



## Criw Tudweiliog a Llangwnadl

### Sawl Deryn

Mae Rhian yn un o golofnwyr mwyaf poblogaidd Llanw Llŷn. Mae'n abl iawn ei llaw hefyd a bu Rhian a'r criw nid yn unig yn gwneud a chrosio sgwariau ond yn brodio enwau ar ddefnydd cyn eu gwneud ar gefnlen.

'Wel am syniad gwerth chweil,' medda fi wrthyf fy hun pan ddwedodd Esyllt wrtha i am y syniad o wau neu grosio sgwariau 8 modfedd i greu cefnlen neu flanced. Byddai pob ysgol gynradd, petaent yn dymuno, yn derbyn pecyn o 64 sgwâr lliwgar er mwyn iddyn nhw gael rhoi enwau strydoedd, lonydd, traethau, ffermydd, caeau o fewn ardal yr ysgol arny'n nhw. Byddai rhain wedyn yn cael eu harddangos yn y Steddfod ym Moduan a'u cadw ar ôl mis Awst, yn yr ysgol neu lle bynnag y dymunid yn eu hardal.

Fel cyn athrawes, cychwynnodd fy meddwl garlamu a meddwl sawl deryn allai'r garreg yma ei ladd...

I ddechrau, dyma brosiect i'n grŵp crosio wythnosol ni - rhywbeth i anelu amdano. Dyma gyfle i ddefnyddio gwlan sbâr ar ôl crosio blancedi i fabanod oedd eu hangen. Edrychwn ymlaen bob wythnos i weld y sgwariau yn ymddangos o fagiau. Mi gyflawnon ni ddigon o sgwariau i greu tair cefnlen.

Danfongwyd un i Ysgol Tudweiliog, un i Ysgol Edern ac aeth y drydedd i Eifionydd. Ers hyn rydw i wedi bod yn cydweithio ag Ysgol Tudweiliog ar y prosiect - a dyma'r ail dderyn.

Cefais fynd i'r ysgol a chael yr hen deimlad o gofio am fy mhlant yn eu gwisg ysgol yn cael yr addysg orau fedran nhw ei chael gan Mrs Carys Jones, y brifathrawes ar y pryd. Ac yn ôl yr hyn a welaf yn yr ysgol heddiw, mae'r traddodiad yn parhau. Mae Ysgol Tudweiliog yn ysgol

liwgar, weithgar a byrlymus.

Y deryn nesa' ydi'r un sy'n cynnwys teuluoedd y disgyblion a thrigolion y pentrefi cyfagos - pawb yn uno, yn ddiarwybod i'w gilydd, drwy dyrchu i mewn i'w stôr o wybodaeth leol am enwau sawl porth, lôn, cae, fferm ac ardal yn y gymuned - eu casglu at ei gilydd er mwyn eu rhoi ar gof a chadw mewn pwythau ar y blanced... gwarchod yr enwau a'r geiriau hyfryd, hyfryd 'ma rhag diflannu.

Deryn celfyddydol ydi'r nesa' i'w daro. Pwytho, pwytho a phwytho. Bydd yr enwau a ddeviswyd yn cael eu pwytho ar ffabrig, fydd, maes o law yn cael ei bwytho ar y sgwariau. Gwaith y plant fydd pwytho'r enwau wrth gwrs, gyda chymorth gwirfoddolwyr o'r gymuned i'w gosod ar y sgwariau.

Bydd y deryn nesa'n hedfan yn ei ôl at ein grŵp i bwytho'r sgwariau at ei gilydd... prosiect difyr dros baned a chacan a chlone cyn dychwelyd y sgwariau'n blanced liwgar i Ysgol Tudweiliog. Edrychaf ymlaen i weld wynebau'r plantos pan welant ffrwyth eu llafur.

A'r deryn olaf i glwydo fydd dychmygu sawl person gaiff berchnogaeth o'r blanced yma a chael deud 'Fi'nath hwn' ar y campwaith. Ia wir, syniad ardderchog genod.

**Rhian Williams, Llangwnadl**



# Gwaddol

Mae'n bwysig fod pob plentyn yn cael cyfle i ddysgu pwytho. Dyma sgil werthfawr fydd ganddyn nhw am byth. Pwysig hefyd yw'r cyfle iddynt roi yr enwau yma ar gof a chadw, a phwysig iawn yw fod bob plentyn yn adnabod yr enwau yma sydd yn eu cynefin.

Gobeithio ar ôl i'r Eisteddfod hen fynd y bydd y gwaith maen nhw wedi'i greu yn cael ei arddangos yn lleol fel bod y gymuned gyfan yn cael ei werthfawrogi a'i edmygu. Dyma waddol gwerth ei gael.

Pleser pur oedd cael cydweithio efo'r plant a blasu eu brwdfrydedd.

Janice Jones, Tudweiliog

## Ffordd tarw a pen lôn giatws

'Nain, 'da chi'n gwbod be ydy "short cut" yn Gymraeg?' oedd y peth cyntaf ddywedodd Ifan yr ŵyr wrthyf pan ddaeth o'r Ysgol ar y diwrnod y treuliodd Mei Mae sesiwn efo'r plant yn trafod y myrdd o enwau lleoedd sydd gennym a'r pwysigrwydd o'u cofnodi ar gof a chadw. Doedd fy nghynigion i ddim hanner cystal â'r cyfieithiad gefais ganddo sef, "ffordd tarw"! Yn sicr dyma enw fydd yn cael ei ddefnyddio yn ein tŷ ni o hyn ymlaen!

Mae cofnodi a pharhau i ddefnyddio'r trysor o enwau sydd gennym mor bwysig yn tydi? Mae llawer o'r enwau yn adrodd hanes wrthym fel Pen Lôn Giatws yn Nhudweiliog sef y lôn sy'n ein harwain i lawr am Blas

Cefnamwlch. Yn y dyddiau a fu roedd y giatiau wrth y loj ar gau ac yn cael eu hagor gan y sawl a drigai yn y loj pan fyddai'r byddigion yn mynd a dod o'r Plas. Tydi hyn ddim yn digwydd heddiw ond mae'r enw o'i ddefnyddio yn mynd i'n hatgoffa am byth o'r hanes.

Mae ambell enw yn cynnig disgrifiad perffaiht o leoliad, Ogor Cigfran, Pwll Du, Porth Cychod, Creigiau Delysg ac eraill fel Carreg Ebol â hanes difyr ynghlwm wrthynt. Pleser o'r mwyaf oedd cael bod yn rhan o'r prosiect gwerth chweil yma. Roedd brwdfrydedd y plant a'r oedolion ddaeth at ei gilydd i rannu a chofnodi'r enwau yma yn heintus. Dwi mor falch fod plant Pen Llŷn wedi cael bod yn rhan o'r prosiect yma, gwaddol arbennig iawn i genedlaethau'r dyfodol.

Siwsan Griffith, Tudweiliog

## Gweld y Gorwel

Mae wedi bod yn brofiad gwych i ni fel ysgol gael gweithio ar brosiect Gair Mewn Gwlân. Y cam cyntaf oedd trio casglu enwau ynghyd - ac anfon negeseuon at ambell gyn riant, neiniau, teidiau a chyfeillion yr ysgol. Doedd ond rhaid hanner sôn a dechreuodd yr enwau lifo i mewn o bob cyfeiriad. Cawsom bnawn hynod ddifyr efo Geraint, Iona a Siwsan ac roedd yn braf eu gweld efo'r plantos yn pori uwchben yr hen fapiau, yn dangos gwahanol nodweddion ac yn holi a chofnodi'r cyfoeth



o wybodaeth werthfawr oedd ganddynt. Roedd cryn dipyn o chwerthin wrth glywed ambell hanesyn difyr am leoliadau ar draws yr ardal. Mae'n dyled yn fawr iddynt.

Aethpwyd ati wedyn i gofnodi'r degau o enwau pyrth, ogofau, creigiau, ffyrdd, nentydd, llwybrau a chaeau ar fap digidol Enwau Lleol Cyngor Gwynedd. Roedd yn brofiad arbennig i'r plant gofnodi'r stôr o wybodaeth roedden nhw wedi ei gadw a sylweddoli mor bwysig ydi cadw'r enwau ar gof a chadw.

Daeth Rhian draw wedyn efo bag o drysorau - 64 sgwâr lliwgar wedi eu gwau'n gelfydd gan aelodau'r gymuned. Bu'r plant yn brysur wedyn yn dewis eu hoff enwau a'r rhai roedden yn teimlo oedd yn haeddu lle ar ein carthen. Mae ei chreu wedi bod yn bleser pur i'n disgyblion a'u brwdfrydedd yn heintus. Cydweithio y tro yma efo Rhian, Janice a Rowena a phob plentyn yn nosbarth 'Gwêl y Gorwel' wedi cael pwytho enw ar sgwaryn arni. Mae'n glytwaith bendigedig o liw, enwau, cydweithio a chreadigrwydd ac rydym yn hynod falch ohoni. Rydan ni eisoes wedi dewis lle y bydd yn cael ei harddangos yn falch pan ddaw adre'n ôl o'r Steddfod!

Ar peth gorau un yn fy marn i - clywed y plant yn defnyddio rhai o'r enwau coll yn barod - Pen Lôn Giatws, Llwybr Gerddi, Creigiau Delysg. Dyna brofi llwyddiant y prosiect - mae'r enwau ar gof a chadw ac yn saff i'r dyfodol.

Einir Davies, Ysgol Tudweiliog



# Rhwng dwy afon

Gweuwrs Eifionydd (Marian Lacey, Margaret Humphreys, Marian Jones, Kath Parry, Mabel Parry, Rhiannon Davies, Gloria Chalk, Wendy Haverfield, Manon Adams, Margaret Williams.)

Bob bythefnos, yn yr Institiwt ar sgwâr Tremadog, fe glywir sŵn clecian gweill a sgwrsio garw. Merched y clwb 'Stitches' sydd wrthi'n brysur â'u pwytha', yn gweu, yn crosio a gwnïo. Codi arian i elusennau trwy weu teganau a gwnïo bagiau wnânt, a bu pedair ohonynt, sef Gloria, Wendy, Mabel a Kath, yn gweu sgwariau hefyd ar gyfer Gair mewn Gwlân.

Mae Kath Parry yn hogan Port o'i chorun i'w sawdl. Dewisodd yrfa yn y fyddin pan yn ifanc, ac fe'i hanfonwyd i Lingfield a Wellington, ond yno, roedd dygymod â'r gwawdio parhaus ar ei hacen Gymreig, yn dipyn o dreth arni. Trwy ddyenwch cymeriad a dyfalbarhad, fe lwyddodd Kath i newid agwedd, ac addysgu ei chyd-filwyr am y Gymraeg a Chymru. Mae'n gwenu wrth eu cofio yn canu Calon Lân ag arddeliad yn y baracs!

Un arall o genod Port, hogan 'ochra' cyf ydy Margaret Humphreys. Os ewch chi draw i gyfeiriad Llanfrothen, a chyn i chi groesi'r Glaslyn, fe welwch chi gartref Gweilch y Glaslyn. Pan ddaeth gofalaeth yr RSPB am yr adar hynod hyn i ben yn 2013, daeth criw o selogion byd natur at ei gilydd a phenderfynu rhedeg y fenter ar lefel leol, a dyna esgor ar yr arwyddair newydd 'Bywyd Gwyllt Glaslyn Wildlife', neu'r BGGW. Un o'r selogion hyn yw Margaret.

Mae'r wylfan ar agor bob dydd o'r wythnos, ac fe ddowch ar draws Margaret yn tywys, yn sgwrsio, yn

addysgu, gan feithrin diddordeb a pharch at fyd natur ymhlith ieuencid a phlant yr ysgolion lu sy'n ymweld â'r safle. Mae ei hangerdd at fyd natur yn amlwg, a hanes Aran a'i gymar Elen, a'u dau gyw sydd newydd ddeor, yn destun balchder iddi.

Bu Mabel Parry yn cadw'r Swyddfa Bost ym mhentref Garndolbenmaen am ddeng mlynedd ar hugain, gan roi gwasanaeth amhrisiadwy i'r Garn, Cwm Pennant a Chwm Ystradllyn ar ardal ehangach.

Roedd dipyn o fwrwm yn y Garn y dyddiau hynny, a Mabel wrth ei bodd yn ei ganol.

Ei thad oedd arweinydd côr y Garn, a byddent yn cystadlu'n rheolaidd ac yn llwyddiannus ambell dro! A rhaid oedd cystadlu ar y coginio, y gwau a'r gwnïo yn sioe Garn yn flynyddol hefyd, wrth reswm.

Cafodd gryn fwynhad o fod yn aelod o ddsbarth gwnïo Megan Williams, Trefor a byddai'n erwydro mor bell â Llundain, gyda'i ffrind, Rhiannon, Tŷ Capel, i brynu deunyddiau ar gyfer creu dillad newydd! Gwau a gwnïo oedd y diléit penna' erioed, a hithau yn ei nawdegau erbyn hyn, mae'r bysedd mor ystwyth ag erioed, yn brysur yn gwau dillad i'r gorwyrion a babanod bach newydd yr ardal.

Mi welwch enw Mabel yn reit aml yn y papurau bro, yn bencampwraig croeseiriau!

Gwraig chwim ei bysedd a chwim ei meddwl yn wir.

**Carys Lake, Porthmadog**

# Gweu adra

Rwyf wedi cael caniatâd i fod yn ddiennw a diolch i chi am barchu fy nymuniad. Rwyf yn berson digon swil ac yn cael cysur wrth weu adref. Rwyf wrth fy modd fy mod wedi cael cyfrannu sgwariau i chi. Roeddech wedi dweud y gallwn ddefnyddio unrhyw liw a dyma gynhesu at y syniad hwnnw yn syth. Y mae gennyf bellenni ymhob man yn y tŷ. Maen nhw mewn cypyrddau, droriau ac mewn bagiau o dan y gwelyau. Pellenni dros ben ar ôl gweu siwmperi i'r plant, y gŵr neu'r wyrion ydyn nhw. Roeddwn wrth fy modd eu bod yn cael ail wynt ac ail gyfle eto. Wrth i mi weu (ni allaf grosio) roedd yr atgofion yn llifo yn ôl a'r plant sydd yn oedolion erbyn hyn yn ôl yn blant eto. Gwn na fyddaf yn mynd i'r Eisteddfod, byddai'n hambyg mynd yno. Caf y cyfan ar y teledu ond mae'n braf cael dweud fy mod wedi gwneud fy rhan a gwneud rhywbeth bach a fydd gobeithio o werth i rywun arall.

# Cricieth Creadigol

Estynnwyd gwahoddiad i griw 'Cricieth Creadigol' i bwytho enwau ar sgwariau a wnaethpwyd gan blant ysgolion y fro ar gyfer prosiect 'Gair Mewn Gwlân'.

Mae'r criw brwdfrydig 'Cricieth Creadigol', sy'n rhan o waith cymunedol Cyngor Tref Cricieth yn cynnwys siaradwyr Cymraeg, dysgwyr a thrigolion sydd newydd symud i'r dref. Gall creadigrwydd danio diddordeb mawr mewn bro a diwylliant gan gryfhau'r cysylltiad rhwng pobl â'r lleoedd sydd o'u cwmpas yn y filltir sgwâr.

Cyneuwyd diddordeb mawr yn yr enwau Cymraeg ar gaeau a'r strydoedd lleol a'r hanes sydd tu ôl iddynt wrth gymryd rhan yn y prosiect 'Gair Mewn Gwlân.' Yn y creu, cafwyd hwyl wrth geisio ynganu'r enwau hynod a'u cyfieithu wrth sgwrsio dros baned a chacen!

Pwyth wrth bwyth taniwyd diddordeb i ddysgu mwy am yr hanesion tu ôl i'r enwau a dod i ddeall y pwysigrwydd o gadw Cymreictod yr ardal.

Trwy gyfrwng cefnlen Eifionydd cawn gyfle i warchod yr hen enwau hyfryd fel Lôn Haearn Fach, Cae Amos, Carreg Samson, Ynys Carreg Aethnen, Nant Dŵr Oer a'r myrdd o enwau tlws sy'n frith mewn bro gyda thirwedd mor hynod a thrawiadol.

Dywed un o'r criw: 'Fel siaradwr Saesneg sy'n cymryd rhan yng ngwaith Cricieth Creadigol ac sy'n newydd-ddyfodiaid, rwyf wedi cael fy swyno wrth ddarganfod telyneg a lliw yr enwau hynafol ar leoedd yn yr ardal hon o Gymru. Mae fy ffrindiau Cymraeg wedi fy nghyflwyno i agweddau o'r Eisteddfod a fyddai fel arall wedi bod yn anhysbys i mi. Mae elfennau creadigol ein gwaith wedi dod â bywyd i'r hen enwau hyn.'

**Dr Catrin Jones, Pentrefelin**



# Mynd yn ôl i'r ysgol

## Dwylo Bach

Rhowch yr enwau yn ein dwylo ni,  
enwau'r traethau a'r capeli,  
enwau'r tai a'r ffermydd i gyd  
yn gân gyfarwydd; ffiniau'n byd.

Rhowch yr enwau yn ein dwylo ni  
enwau'r caeau a'r chwareli,  
enw'r afon, enw'r lôn,  
o borth i borth, yn gwch a ffynnon.


A gyda'n dwylo bychan, destlus  
fe awn ati mor ofalus  
i wthio edau trwy lygaid nodwydd  
a thynnu'r cwbl at ei gilydd

bwyth wrth bwyth a gair am air  
rhwyng y môr a'r caeau gwair  
rhwyng y swnt a thrai y lli  
trwsio'r rhwygau oll wnawn ni.

Gyda gofal, fesul un  
patsio'r tyllau, llenwi'r llun,  
swatio'r enwau yn eu lle,  
yn gofnod byw, yn flanced gre'

Yn gof ar gadw, gair mewn gwlan,  
clytwaith coeth o hen, hen gân.  
Ddoe a heddiw'n fyw ac iach  
yn swatio'n saff yn ein dwylo bach.

Casia Wiliam



## Ysgol Pentreuchaf

Ddechrau mis Rhagfyr y llynedd, treuliais ryw awran ddifyr yng nghwmni criw o blant yn Ysgol Pentreuchaf, gan mai hwy oedd wedi derbyn y sgwariau roeddwn wedi eu crosio fel rhan o brosiect 'Gair mewn Gwlan.' Y rheswm mai i'r ysgol hon yr aeth fy sgwariau oedd fy nghysylltiad â'r ysgol sy'n ymestyn dros drigain mlynedd bellach!

Nôl ym mis Mawrth oer ym 1963, fe symudais hefo nhad, mam a'm chwaer o fferm uwchlaw pentref Llanbedr, Meirionnydd i fferm arall yn Rhosfawr, a dyna gychwyn y cysylltiad hefo'r ysgol hon. Ysgol fechan, dwy ystafell oedd hi bryd hynny, ond cafodd fy chwaer a minnau addysg tan gamp yno gan y diweddar Miss Catherine Jones, Morfa Nefyn neu 'Miss Jos 'sgo' fawr' fel oedden ni'n ei galw i arbed dryswch hefo'r athrawes arall, 'Miss Jos 'sgo' fach!'

Cyn cychwyn fy nghwrs dysgu yn Aberystwyth, yr oedd yn ofynnol bryd hynny i dreulio pythefnos yn arsylwi mewn ysgol. Wel doedd dim eisiau meddwl nac oedd ac am Bentreuchaf yr es i a mwynhau fy hun yn fawr!

Cysylltiad arall hefo'r ysgol hefyd ydi Clwb Ffermwyr Ifanc Godre'r Eifl achos dyma fan cyfarfod y clwb ac felly mae hi o hyd. Cyfnod difyr iawn oedd ymwneud â gweithgareddau'r Ffermwyr Ifanc a dyma roddodd y cychwyn i Gôr Godre'r Eifl gyda'r diweddar Mr Griffith Davies, Llithfaen - cerddor wrth reddf.


Ydi, mae Ysgol Pentreuchaf wedi bod yn flaenllaw iawn yn fy mywyd a braf oedd cael rhoi rhywbeth bach yn ôl drwy gyfrwng y sgwariau. Roedd plant y dosbarth yn holi'n frwdfrydig am y crosio a sawl un

yn gyfarwydd â gweld aelodau o'u teulu yn gafael yn y bachyn. Da oedd eu gweld yn cael penrhwyddid wedyn i osod y sgwariau ar y llawr fel ag yr oeddwn nhw'n dymuno, a sôn am gydweithio! Trafodwyd fel y gellid trefnu'r sgwariau yn lliwiau'r enfys, neu fel tirlun gyda'r sgwariau gwyrdd yn cynrychioli'r gwelltglas, rhimyn o las yn afon, sgwâr melyn yn haul ac yn y blaen. Braf de!

Rydw i wir yn edrych i'laen i weld cynllun terfynol y plant a beth fyddan nhw wedi ei ychwanegu at y gefnlen. Diolch blant a Mrs Humphreys am gael dod atoch i brofi o'ch brwdfrydedd a'ch diddordeb a phob dymuniad da i Ysgol Pentreuchaf.

Rhian Jones, Rhosfawr





# Tro rownd Garn

Profiad braf oedd cael mynd am dro i gyfarfod plant a staff Ysgol Garndolbenmaen a throedio hen lwybrau cyfarwydd.

Danfon y sgwariau amryliw yno. Ôl y gweill a'r bachau crosio diwyd wedi creu cymrodedd o liwiau'r enfys o'r gwlan; pob sgwaryn bach yn unigryw a hardd, yn ddarn o gelf ac yn ddathliad o grefft gywrain y sawl fu'n eu creu. Yn debyg i sgwariau bach cyffelyb fyddai wedi'u gweu a'u crosio a'u pwytho'n dwt at ei gilydd i greu carthenni o wlan Ffatri Bryncir ers talwm. Peidio gwastraffu'r edefyn lleiaf. Bod yn ddarvoudus a gofalus. Fel yna roedd pobl yn dygymod ag amgylchiadau caled eu hoes. Fel yma'n union y cafodd Myfanwy, fy mam ei magu ac i'r ysgol fach hon yr arferai ddod ar ddechrau 30au'r ganrif ddiwethaf. Bu Kate Ellen, fy nain; Elin fy hen nain a Catrin fy hen, hen nain hwythau hefyd yn troedio'r llwybrau o Glan Gors, yn y topia, i lawr Lôn Seth tua'r ysgol yn y Garn.


John Lloyd Williams y botanegydd a'r cerddor, a oedd yn un o sylfaenwyr *Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, oedd prifathro cyntaf yr ysgol yn 1875 a bu yno am ddeunaw mlynedd. Byddai'n cerdded llethrau Moel Hebog gerllaw i chwilio am redynau prin a chasglodd lawer o alawon gwerin adnabyddus fel *Tra Bo Dau* tra bu yma'n gweithio. Daeth ei chwaer Elizabeth Williams ato i'r Garn pan oedd hi'n 13 oed i gadw tŷ iddo fo. Byddai hithau'n cerdded o'r Garn i Ysgol Cwm Pennant i ddsygu'r genod wnio. Roedd hi hefyd yn awdures a chyhoeddodd gyfrolau hunangofiannol *Brethyn Cartref* a *Dirwyn Edafedd* am ei hanes yn Llanrwst a Garndolbenmaen. Cyd ddigwyddiad hyfryd ydi bod teitlau cyfrolau Elizabeth Williams yn cyd gordio'n berffaith â phrosiect Gair Mewn Gwlan Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd eleni.

Chwilio am enwau tai, ffermydd ac adeiladau pentref Garndolbenmaen a'r cyffiniau oedd gorchwyl plant yr ysgol a'r enwau hynny, wedyn, yn cael eu hysgrifennu'n dwt ganddyn nhw ar galico gydag inc arbennig a'u gwneio'n sownd i'r garthen a grëwyd o'r sgwariau.

Mae hud a lledrith i lawer o'r hen enwau yma a straeon difyr yn gysylltiedig â nhw. Wrth i'r prosiect ddirwyn ac ymestyn aed ati wedyn i weithio gyda'r plant a chreu cerdd sy'n mynd â'r darlennydd am dro o gwmpas Garn. Chwarae efo swyn a sw'n geiriau wnaeth y plant a chyd greu rhigwm bach o'r hen enwau. Mae'r ffordd y dywedir yr enw Rhes Cambrian, gyda'r pwyslais ar yr 'r' yn nodweddiadol lafari sy'n unigryw, am wn i, i'r Garn. Gwneuthurwyr hetiau a theilwriaid a theilwresau fyddai'n byw yn y tai yma ers talwm, yn ôl y sôn. Cawn hanes Gwgan, wedyn a roddodd ei enw i fferm Dolwgan ac ystâd Bro Gwgan yn y pentref. Tafarn y Cross Foxes a'i chwrrw budur' ysbrydolodd y pennill doniol sy'n sôn am y llwynog. Pentyrwyd yr enwau a'u clymu ynghyd a gorffen yn llawen a gobeithiol gyda chyfeiriad at Haul ar Fryn.

Bu bod yng nghwmni'r plant gwreiddiol, lliwgar ac unigryw hyn yn fraint a synhwyrais bod edafedd etifeddiaeth ac iaith yn dirwyn o hyd rhwng muriau ac ym mharabl plant Ysgol Garndolbenmaen.

Delyth Roberts, Rhos-lan



## 'Hanes dy ardal dy hun'

Rydw i'n cofio rai blynyddoedd yn ôl, wrth arwain plant Ysgol Pentreuchaf ar daith gerdded o gwmpas yr ardal, bod wrth fy modd o glywed ymateb un o'r disgyblion. Roeddem wedi oedi am fymryn ar y bompren dros afon Penprys, ger y rhyd ar waelod Lôn Bach Tŷ Mawr, ychydig yn is i lawr yr afon na'r Felin, pan glywais un o'r bechgyn yn troi at ei ffrind gan ddweud ei bod 'yn braf clywed hanes dy ardal dy hun yn tydi?'

Cylchdro oedd y daith honno, gan gychwyn heibio Tŷ Corniog a Thŷ Corniog Bach, a gweld Llain Bunt yn ymestyn yn hirfain o'r ffordd i lawr at yr afon. Cyrraedd y Penra a throi i lawr Allt Pandy gan basio caeau Wern, a'r Pandy ei hun yng ngwaelod yr allt. Croesi'r bont a dringo Allt Tan y Ffordd heibio adfeilion yr hen fwthyn a roes ei enw i'r allt. Ymlaen â ni heibio Mela a'i hen Syrjeri i gyfeiriad groeslon yr Hendra, gan oedi ym Mhen Dryll Du wrth y tro am Dir Gwyn. O'r bompren ar Lôn Bach Tŷ Mawr dychwelwyd i'r ysgol heibio adfeilion hen dai Penprys, a fu unwaith yn un tŷ yn dyddio'n ôl i 1594, cyn bod ffordd dyrpeg newydd yn mynd heibio'i gefn yn 1807. Hen gyfuniad digon anodd i'w ynganu ydi'r np yng nghanol Penprys, a phan godwyd y tai cyngor newydd ochr draw i'r bont, Penprys oedd yr ynganiad a'r enw swyddogol ar y tai newydd. Ar ôl troi i'r dde yn Groeslon Tan-fon roeddem yn ôl yn yr ysgol.

Rhan bwysig o 'hanes dy ardal dy hun' y cyfeiriodd y bachgen hwnnw ato ydi'r holl enwau llefydd difyr sy'n bodoli, ac mae'n dda bod y prosiect hwn yn annog plant heddiw i ymddiddori ynddynt, gan ymateb mewn gwahanol ffyrdd, boed mewn gair neu mewn gwlan.

Er bod dalgylch Ysgol Pentreuchaf wedi ehangu ers pan oeddwn i'n ddisgybl yno, roedd Castell, Rhosydd, Pemprys, Mela, Plas a chyrion Carnguwch yn rhan ohono bryd hynny hefyd, ac mae plant heddiw yn cael ymestyn eu gwybodaeth i ardal ehangach a dysgu mwy o enwau difyr eu bro. Dyma waddol a fydd yn aros ymhell ar ôl wythnos yr Eisteddfod.

John Dilwyn Williams, Penygroes





## Ar drywydd enwau

Enwau'r môr. Enwau'r tir. Enwau'r caeau. Enwau'r lonydd. Enwau'r mynyddoedd. Enwau profiadau. Enwau straeon.

Mae lle rydach chi'n byw yn Llŷn yn rhan fawr o'ch hunaniaeth, o bwy ydych chi. Mae 'na wahaniaeth rhwng Abersoch a Sarn Bach. Rhwng Botwnnog a Sarn Mellteym. Rhwng Aberdaron ac Uwchmynydd. Rhwng Uwchmynydd ac Anelog.

'Un o Nefyn wyt ti?'

'Nage, Morfa Nefyn.'

Mae'r filltir 'na rhwng y ddau bentra yn un hir.

Troedio tir ein cynefin ydan ni, yn ansugno pob modfedd o'r lle, yn dod i'w adnabod, ei garu weithiau a'i gasáu dro arall.

Mae gwahanol fathau o flodau'n tyfu mewn mathau gwahanol o amgylchfyd. Gellir dweud yr un peth am bobl! Ceir sawl acen a geirfa wahanol yn Llŷn. Fydda i'n meddwl weithiau bod ansawdd y llais yn wahanol, hyd yn oed.

Mi ges i'r fraint o gael treulio amser yn holl ysgolion dalgylch Llŷn ddechrau'r gwanwyn 2023. Deg ysgol sydd i gyd yn nalgylch Botwnnog, a phob ysgol yn unigryw yn eu ffyrdd eu hunain. Gan fod yr Eisteddfod ym Moduan eleni, y syniad oedd i ddathlu eu milltir sgwâr nhw gan wneud collage o enwau arbennig eu hardaloedd nhw allan o eiriau papur newydd. Am ryw reswm, mae plant yn gwirioni ar gael defnyddio

sisyrnau. Ond yn fwy na hynny, yn gwirioni ar gael gwneud rhywbeth nad oedd yn teimlo fel 'gwaith'.

'Be, 'da ni'n cael gwneud *hyn* drw bora?'

Heb sylweddoli bod yr hyn oedd nhw'n ei wneud yn bwysig, a gweld eu bod yn ymhyfrydu yn yr enwau hyn yn llonni fy nghalon i a'r athrawon.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd Llŷn wedi eu pupro ar hyd ar yr arfordir, ac roedd hynny yn amlygu ei hun yn eu gwaith. Enwau'r traethau, porthladdoedd, creigiau ac ogofâu. Gwirionodd blant bach Ysgol Morfa ar hud Porth Poli. Doedd nhw ddim o reidrwydd yn gwybod yn union lle roedd Porth Poli, ond roedd yr enw wedi bachu ar y dychymyg, ac wedi deffro rhywbeth ynddyn nhw.

Un sy'n sefyll allan ac yn siŵr o godi gwên ydi Tŷ Weetabix ym Mynytho, am bod boesys Weetabix yn y ffenest ers blynnyddoedd. Ym Mhont y Gof, enwau'r caeau a'r tir oedd yn bwysig i'r plant, a finnau'n cael gwerau'r ffarmio gan y disgyblion drwy eu hamryw storïau. Dyna sy'n gwneud yr enwau hyn yn bwysig, y straeon sydd tu ôl iddynt, a'r straeon sy'n deillio ohonynt – yn dawnsio ar flaenau tafodau'r plant. Efallai mai'r gair sy'n crisialu'r enwau hyn i gyd, ac un gododd fwy nag unwaith gan y plant... Adra.

Mared Llywelyn Williams, Morfa Nefyn

## Pob enw â'i stori

Yng nghanol holl gowdal gofynion gwaith a phrysurddeb ysgol diolch am brosiect unigryw Gair mewn Gwlân sydd wedi gorfodi disgyblion ac athrawon ysgolion Llŷn i arafu a phlethu ddoe a heddiw drwy gyfrwng enwau hyfryd. Dyma gynllun gwych a orfododd degau ar ddegau o blant i ganolbwyntio ar y cyfoeth o eirfa sydd yn eu hamgylchynu ac yn rhan annatod o'u bywydau bob dydd. Profodd y gwaith paratoi a'r creu fod yr enwau yn gyfarwydd rhywle yn yr isymwybod ond bod angen cynllun fel Gair mewn Gwlân i ddeffro'r awydd i'w hawlio, eu dysgu, a'u gwerthfawrogi. Yn bersonol, penllanw wythnosau o waith yn casglu enwau tai, ffermydd, lonydd a llwybrau oedd arwain gweithdai gyda disgyblion 5 a 6 yn cyfansoddi dwy gerdd – cerdd yn disgrifio traeth Bryn Gŵydd yn seiliedig ar ddisgrifiad bendigedig Meinir Pierce Jones o'r traeth yn ei nofel *Capten* a Cherdd Llythyr, a'r cynnwys yn brawf o falchder y plant o'u hardal a'r cyfoeth o enwau a'u hysbrydolodd. Cynllun gwych a chael y plant i fwynhau barddoni. Sylweddolais drwy fod yn rhan o'r broses ymchwilio a chreu yn Ysgol Edern na fydd yr enwau'n *anghofiedig* a bod disgyblion yr ardal wedi cael cyfle, diolch i Gair mewn Gwlân i'w coffeidio a'u trysori.

Melys oedd dilyn taith disgyblion Ysgol Foel Gron, Mynytho, sydd wedi fy atgoffa o ambell enw na ddefnyddir heddiw, ac yn dwyn i gof atgofion plentyndod o gymeriadau a arferai fyw mewn ambell dŷ. Addas yw cychwyn y gerdd gyda stôr o enwau sy'n cadarnhau'n syth gysylltiad y pentref â chapteiniaid llong a ddychwelodd o'r môr i Fynytho a chodi tai a'u henwi ar ôl y gwledydd ecsotig y bu iddynt ymweld â hwy. Ymhyfrydaf yn yr enw 'China' oherwydd Nain arferai fyw yma, a'r adeg honno 'Pendref' oedd enw'r tŷ, a diolch i'r perchnogion newydd am adfer ei enw gwreiddiol.

Ond er mwyn cyrraedd tŷ Nain, rhaid oedd cerdded ar hyd Lôn China. Diolch am gynnwys enwau'r holl siopau a'r ffaith syfrdanol ar y diwedd mai un siop sydd wedi goroesi. Fy Anti Laura arferai gadw Siop Bryngoleu a theulu fy nhad oedd perchennog cyntaf y Post, sydd hyd heddiw yn sefyll yn dalog yng nghanol y pentref. Mae Siop Ganol yn ran o hanes 'Bwgan Pant y Wrennol' a threuliais oriau ac oriau yn eistedd ar faine Mr. Roberts, Siop y Crydd, yn gwrando ar gymeriadau difyr Mynytho yn rhoi'r byd yn ei le. Drwy gyfrwng y gerdd hyfryd hon sylweddolaf fod ym Mynytho gyfoeth o enwau a hanes ynghlwm wrth nifer fawr ohonynt. Roeddwn yn falch o'r sylw a roddir i'r neuadd, calon y pentref a anfarwolwyd gan R. Williams Parry yn ei englyn enwog. Pa bentref arall sydd â saith ffynnon ac enw pob un yn llawn hanes! Syndod yw sylweddoli nad oes un o'r capeli ar agor bellach.

Mae'r gerdd yn ysgogi chwilfrydedd i ddysgu mwy am y pentref ac yn cadarnhau yr hyn yr wyf yn ei wybod yn barod – fod Mynytho yn gyfuriog o enwau trawiadol sy'n agor y drws i straeon sy'n werth eu dysgu a digwyddiadau hanesyddol sy'n werth eu cofio. Mae gan pob un enw ei stori! Diolch ddisgyblion Ysgol Foel Gron am fy annog i fynd am *sgowt* o gwmpas Mynytho gyda chwilfrydedd o'r newydd.

Bethan Dyer, Mynytho



# Dim ond dechrau ydi hyn

Rydym ni wedi mwynhau bod yn rhan o'r cywaith enwau lleol yn fawr iawn. Mae wedi deffro diddordeb byw, diddordeb sydd wedi ysgogi gymaint o brofiadau gwerth chweil. Mae sicrhau'r defnydd cywir o enwau lleol yn bwysig gennym yn yr ysgol erioed, gyda'r dosbarthiadau wedi eu henwi ar ôl lleoliadau ers ychydig o flynyddoedd. Ond, mae'r prosiect hwn wedi mynd â ni gam ymhellach. Cawsom ein synnu a'n rhyfeddu gan y cyfoeth o enwau sydd yn ein milltir sgwâr fach ni, pob un â'i hanes difyr a'i leoliad bendigedig. Yng nghanol prysurdeb bywyd mae'n braf arafu, ffocysu a gwerthfawrogi beth sydd wrth ein traed.

O ganlyniad i'n mwynhad a'r brwdfrydedd sbardunwyd wrth drafod yr enwau lleol esgorwyd ar amrywiaeth o brofiadau trawsbynciol ac ymgysylltu'n ddwfn a chadarnhaol gyda'r gymuned. Dysgom am gefndir hanesyddol a lleoliadau daearyddol yr enwau gyda'r hanesydd lleol Iwan Hughes. Cawsom flas ar gofnodi'r enwau a'u cyflwyno mewn amrywiol ffurfiau gan ddefnyddio pastel, paent, tecstilau, pren a digidol gan efelychu'r artist lleol Morwen Broschot. Cydweithiom gyda Mei Mac ar gofnodi'n fwy enwau ffurfiol ar wefan enwau lleol Cyngor Gwynedd. Cyflwynom yr enwau i weddill yr ysgol a'u plethu i gystadlaethau ein heisteddfod ysgol e.e. llefaru, rap a cherddoriaeth greadigol ac yna i'r gymuned ehangach mewn cyngerdd yn Amffitheatr Plas Glyn y Weddw.

Bellach, mae'r perllau o enwau lleol difyr, rhai adnabyddus a llai adnabyddus, yn fyw ac yn rhan o iaith a sgwrs naturiol cymuned Ysgol Llanbedrog. Dyma enwau rydym yn eu perchnogi ac yn ymfalchïo yn eu sain, eu hanes a'u lleoliadau. A dim ond dechrau ydi hyn!

**Manon Haf Owen, Ysgol Llanbedrog a disgyblion  
Dosbarth Tir y Cwmwd, Llanbedrog**



# Hau Hadau

## Ysgol Sarn Bach

*(Mae cerddi Ronnie a Scott i'w gweld ar dudalen 43)*

**'Porth Neigwl' gan Ronnie**

Dyma gerdd sydd yn siarad. Yn syth rwy'n dychmygu fy hun yn cerdded i lawr y llwybr tywodlyd. Mae wedi crynhoi popeth - 'tonnau yn wyllt fel y gwynt' a'r mynydd yn sibwrdd wrth y môr.

Mae wedi cyfuno symud y cymylau fel gwylanod a'r gwlan defaid. Daw â ni yn ôl o'n byd breuddwydiol at fywyd bob dydd lle mae pobl yn mynd a'u cwn am dro ar y traeth ac at y gwymon dan ein traed cyn troi yn ôl at y llwybr tywodlyd. Dyma hysbyseb ardderchog i Borth Neigwl.

**'Porth Neigwl' gan Scott**

Mae'r gerdd hon fel catalog o rinweddau Porth Neigwl. Mae yn llawn digwyddiadau -

'haul yn arnofio', 'twyni yn erio', 'tonnau yn chwalo'. Gallaf glywed Porth Neigwl yn rhuo. Llwyddodd Scott i roi cymysgfa o bethau tlws a gwych ochr yn ochr â delweddau anghynnes a brawychus megis 'sgerbwd y dolffin sydd yn drewi fel tail a chreigiau duon fel ceg diafol.'

Mae hyn yn ein hatgoffa mor beryglus yw Porth Neigwl. Mae'r bardd bach hwn yn mynd â ni o'r llon i'r lleddf mewn cwpled. Yna, fel i unrhyw un sydd wedi bod yno mae'n mynd â darn o'r traeth yn ôl adref yn ei esgidiau ac yn ei gof. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonoch.

**Anna E Jones, Abersoch**

## Ysgol Pont y Gof

Braint oedd cael bod yn rhan o brosiect mor arbennig, un sydd wedi uno yr ysgol a'r gymuned. Mae yna gymaint o enwau lleol wedi mynd yn angof ac eraill wedi cael eu newid dros amser sy'n bechod mawr. Mae'r prosiect hwn wedi rhoi cyfle ardderchog i blant gydweithio gydag aelodau'r gymuned, gyda beirdd a phobl leol gan edrych ar fapiau, chwilio am enwau afonydd a phontydd cyn mynd ar daith leol a dod o hyd iddynt. Beth sy'n gwneud y prosiect yma'n unigryw yw'r ffaith nad yw'n gorffen ac mae'n bur debyg na fydd byth yn gorffen. Mae yma hedyn wedi'u hau a hedyn sy'n tyfu.

Mae plant wedi defnyddio'r enwau ac enwi eu dosbarthiadau:

- Dosbarth Cofan ar ôl Afon Cofan
- Dosbarth Trewan ar ôl Pont Trewan
- Dosbarth Seithbont ar ôl Pont Seithbont
- Dosbarth Rhyd Goch ar ôl Pont Rhyd Goch.

**Bethan Prys Jones, Ysgol Pont y Gof**



## Ein stepen drws ein hunain

Fel pennaeth Ysgol Bro Plenydd doedd dim rhaid i mi betruso eiliad cyn cytuno i gymryd rhan yn y prosiect gwerthfawr ac amserol hwn i ddathlu dyfodiad ein Gŵyl Genedlaethol i Lŷn ac Eifionydd.

Mewn cyfnod ble mae'r rhan helaeth o fewnfudwyr yn ddall i'n hiaith a'n diwylliant a heb ronyn o ddiddordeb, yn aml; ac mewn oes ble mae dylanwad y cyfryngau cymdeithasol yn golygu fod ein plant a'n pobl ifanc yn fwy hyddysg yn yr hyn sy'n digwydd ar draws yr Iwerydd nac yn yr hyn sydd ar eu stepen drws eu hunain, mae hi'n bwysicach nag erioed ein bod yn mynd ati i gadw yn fyw gyfoeth enwau, atgofion a chwedlau ein bro ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol cyn i ni eu colli am byth!

Y llynedd bu plant Ysgol Bro Plenydd yn dysgu am hanes pentref Y Ffôr ar ardal o'i gwmpas - gan gychwyn gyda'r Gromlech hynafol ac olrhain hanes a datblygiad y

pentref drwy astudio mapiau a dogfennau, edrych ar hen luniau a gwrando ar hanesion ac atgofion hynafwyr yr ardal.

Eleni felly ar gyfer llunio y gefnlen hon, roedden nhw'n fwy na pharod i ddwyn i gof y cyfoeth enwau a ddysgwyd - Rhyd y Gwystl, Weirglodd, Capeli Salem ac Ebeneser, Pig Hotel a'r Fourcrosses Inn i enwi ond ychydig a'u hanesion cysylltiedig.

Hyfryd o beth oedd gweld y plant yn cydweithio â Gwyneth o Forfa Nefyn a Janet, Bryn Bachau, Chwilog, dwy gyfeilles a neiniau i Hari ac Isla, y ddau yn ddisgyblion yn yr ysgol. Dros amser, gwelwyd stori Y Ffôr yn tyfu ar y gefnlen a does dim dwywaith fod treulio amser yng nghwmni'r ddwy yn dysgu brodio a thrafod sut i gynrychioli y lleoedd yn greadigol wedi bod yn brofiad cyfoethog a bythgofiadwy i blant Y Ffôr.

Carys Hughes, Ysgol Bro Plenydd

## Pont y Merched

Pompren ydi Pont y Merched ar dir fferm Coed Cae Gwyn Llanybi (Coicia yn lleol). Mae yn ffordd o groesi'r nant sydd yn tarddu ar Foel Bromiod, ac yn llifo lawr i afon Erch yn yr hafn sydd rhwng Ffynnon Cybi a phont Hendre Gareyn ym Mhencaenewydd.

Ers talwm, roedd y merched lleol yn mynd yno i olchi, a chael sgwrs mae'n siŵr, a dyna sut y daeth y bompren i gael ei hadnabod fel Pont y Merched. Mae yno ryw nawws hynafol a thawel. Petai modd cael llun llonydd o'r gorffennol mi fuasai yn braf cael gweld y merched wedi torechi eu llewys ac yn golchi efo'i gilydd, a chael gwranddo ar eu lleisiau.

Mae cyfeiriad at y bompren yng nghân 'Beti Wyn' gan Mynediad am Ddim ar eu halbwm *Wa Mc Spredar*.

Awn fy nghariad  
am ryw dro bach.  
Cerdded law yn llaw drwy'r llan  
lawr y llethrau,  
hyd y dorlan.  
Breuddwydion pèr.  
Tyrd fy mun at Bont y Merched  
cawn fynd yno yn gytûn.  
Tyrd fanwylyd draw i'r bompren  
sydd yn uno dau yn un.  
Beti Wyn, Beti Wyn, Beti Wyn ...

Diolch am gael bod yn rhan o Gair mewn Gwlân. Roedd yn gyfle bendigedig i bontio'r cenedlaethau. Ar ôl derbyn carthen wedi ei gweu yn rhodd gan Gwen Jones Parry, sydd bron yn 90 oed, aeth y cyngor ysgol ati yn syth bin i drefnu Cinio Calan Mai ar gyfer oedolion hyn yn y gymuned. Dros bryd o fwyd a sgwrs cafwyd casgliad cyfoethog o enwau lleol, sydd bellach wedi eu gwnïo ar y garthen - gwaddol i ni ar ôl yr Eisteddfod, a'r hen enwau ar gof a chadw

Elin Owen, Ysgol Llanybi

## Nid lleoliad yn unig ond rhan o bwy ydan ni

Mae i Ffynnon Gybi ryw hud arbennig. Hud a ddenodd pobl yno'n y gorffennol i wella eu clwyfau, i deimlo'n well. Er nad ydy'r sâl yn ymgynnull yno bellach, daw'r ymwelwyr i gael blas ar yr hud arbennig yma a chael jioch o deimlo'n well o fod wedi cael gweld yr adfail un corn yn swatio yng nghesail Garn Bentyrch. Dod i weld, gwirioni, tynnu llun a gadael wna pobl rŵan ond i blant Llanybi mae ymweld â'r Ffynnon yn rhywbeth llawer iawn mwy.

Profiad ydy mynd yno, profiad o gael dod i adnabod yr hen furddun eto a sylwi ar y manion gan roi eu holl synhwyrâu i'r profiad hwnnw. Dyna pam o fewn y gerdd hon cawn bob math o deimladau o'r ochneidio a'r poeni i'r cerdded yn hamddenol a blincio. O gael bod yno mae'r plant wedi amsugno bob dim o'u hamgylch, wedi sylwi ar yr hyn oedd yn wahanol o'r tro diwethaf ac wedi adnabod y lle. Felly does dim rhaid tynnu llun cyn gadael gan fod y profiad a'r syniad o adnabod yn llawer iawn mwy byw.

Nid lleoliad yn unig ydy'r Ffynnon i blant Llanybi ond rhan o pwy ydan ni, hon sy'n dangos i'r byd mai plant Llanybs ydan ni.

Bethan Mair Jones, Coleg Meirion Dwyfor





## Llygad plant Chwilog

Difyr ydy cael blas ar rywle drwy lygaid plant.

Yn gyntaf tydy gweld byth yn ddigon, mae'n olygfa llawn synhwyrâu ac emosiynau a'r hyn sy'n bwysig yn cael ei roi ar blât i ni. Eu milltir sgwâr yw Chwilog ac maen nhw'n adnabod y fro nid yn unig trwy'i henwau ond trwy ddefnyddio eu synhwyrâu. Yma, cawn ein cyfeirio at leoliadau amlwg megis Afonwen ond cawn hefyd ein hatgoffa o'r Afon Ddu. Nid darlun arferol o'r Lôn Goed a gawn ond cyfle i aros ennyd a chamu o dan ei tho plethedig a sylwi ar y coed cyll a'r wiwerod. Cawn ein boddi gan sŵn natur yr ardal a dod i wybod yn union lle down o hyd i gân y gog a'r robin goch. Un peth sy'n sicr ydy na wnewch chi lwgu yn Chwilog gan fod arogl a blas y bwyd yn amlwg ac yn ein tywys drwy'r tymhorau o gawl cennin mis Mawrth i gŵn poeth Tachwedd. Cawn flwyddyn gron yng nghwmni Plant Chwilog, blwyddyn o adnabod, cofio a sylwi ar y pethau hynny sy'n gwneud yr ardal yn unigryw.

Bethan Mair Jones, Coleg Meirion Dwyfor

## Y gymwynas

Mae 'na bob math o hanesion a chwedlau difyr yn gysylltiedig ag ardal Beddgelert, gyda rhai o'r enwocaf yn cynnwys storïau Gelert, Rhita Gawr a dreigiau Dinas Emrys. Mae 'na hanesion lleol hefyd wrth gwrs, sydd wedi cael eu pasio o genhedlaeth i genhedlaeth, ac mae'r rhain yn eu tro wedi arwain at enwau gwreiddiol a diddorol fel 'y gymwynas' a 'stamps' - enwau sydd ddim mor gyfarwydd erbyn heddiw efallai, yn enwedig i'r genhedlaeth iau.

Fel rhiant, dwi'n andros o falch bod plant Ysgol Beddgelert wedi cael cyfle i ymchwilio i'r enwau diddorol sydd yn eu hardal, a dysgu am y chwedlau, yr hanesion a'r bobl sy'n gysylltiedig â nhw. Mae'n dda o beth bod y plant yn gwybod amdanyn nhw. Mi fyddan nhw'n cofio'r enwau am byth, ac yn gwneud yn siŵr nad ydyn nhw'n mynd yn angof.

Elen Mererid Jones, Nant Gwynant



# Diolch i blant Ysgol Penisarwaun

Wel am braf gweld eich bod wedi bod yn brysur yn gwneud gwaith am y chwarel yn yr ysgol, a'ch bod wedi bod yn cofio a rhestru enwau'r ponciau oedd mor bwysig i'r gweithwyr ac i hanes cyffredinol y chwarel.

Mae hi mor bwysig cadw'r hen enwau yma'n fyw - roedd fy nau daid i yn gweithio yn y chwarel - y naill yn chwarel Llanberis a'r llall yn chwarel Dyffryn Nantlle. Er na fûm i ddigon lwcus i gyfarfod yr un ohonynt, cefais lu o hanesion y ddau gan fy nwy nain. Fe glywais y ddau droeon yn enwi'r ponciau ac yn adrodd straeon difyr am y cyfarfodydd yn y cytiau sine - y tynnu coes, y cystadlaethau, yr eisteddfodau a'r trafodaethau difyr fyddai'n digwydd yno.

Fel un sydd wedi ei geni a'i magu ym Mhenisarwaun, mae gen i lu o atgofion melys o chwarae yno erystalwm.

A wir i chi, doedd na ddim lle gwell, i grwydro, anturio, chwarae a mwynhau. Tybed ydi rhai ohonoch chi yn chwarae yn yr un llefydd heddiw? Fyddwch chi'n mynd draw i Stabla City ar ddiwrnod braf o haf i bysgota yn afon Seiont, neu i drochi ar ei glannau? Neu 'fallai eich bod chi'n dringo i fyny Craig Fawr a rhedeg wedyn i chwilio am gylch y tylwyth teg neu ogofau ar y Graig Fach? A dyna i chi'r Waun wedyn, lle, yn rhywle mae Ffynnon Cegin Arthur, heb sôn wrth gwrs am drio gwneud den ym Mhen Dinas?

Rydach chi'n lwcus iawn byw mewn ardal mor hyfryd, sy'n llawn hanes, chwedloniaeth a llecynnau godidog.

**Anwen Hughes, Carmel, Penygroes**

# Brithwaith ardal Bro Llifon

Rydau ni'n byw mewn ardal sy'n gyfoethog o enwau traddodiadol Gymreig, ysywaeth mae rhai yn prysur ddiflannu, boed oherwydd dylanwad mewnlfifiad neu anheddau'n troi'n adfeilion. Braint felly oedd dwyn i gof i'r genhedlaeth hon ac i'w hepil, hanes yr enwau oedd yn rhan annatod o dreftadaeth eu cyndeidiau, ac a fydd ar gof a chadw i'r dyfodol. Mae i bob enw ei arwyddocâd, boed yn ddaearyddol neu'n hanesyddol, yn gynoedol neu'n gyfoes.

Mawredd y Mynydd Mawr sy'n gwarchod yr ardal a diferion o'r trwnc yn creu'r afonig Llifon sy'n ymdroelli'n anfoddog gan wlychu daear Cesarea, Carmel a'r tyddynnod niferus ar gyrion Y Groeslon. Yna, ymledu yn rhodresgar i diriogaeth y byddigions gynt ym Mhlas Glynllifon, gan gyrraedd yr aber ym mae Caernarfon: chwe milltir o daith.

Y chwareli a anfarwolwyd yn straeon Dr Kate Roberts ac a fu'n gynhafiaeth i'r gymuned: Penyrsedd, Cilgwyn, a Thwll Braich, a'r capeli fu'n noddfa ym Mhisgah a Bryn Rhos. Mae enwau'r anheddau yn gyfoethog o hanes a'u hystyron yn ddiddorol: e.e. Grafog, Cefn Nen, Grugan Wen a Thyddyn Dafydd.

Canrif o ddathlu sefydlu'r neuadd bentref fu hanes Y Groeslon eleni. Cyfrwng o ddathlu etifeddiaeth drwy bwytho ar gynfas dapestri enwol eu cynefin, fu braint plant Bro Llifon. Brithwaith ardal gyfan ar gof cenedl, cwlwm wrth gwlm, dolen wrth ddolen, pwyth wrth bwyth, i gofio.

**Eirian Pritchard, Caernarfon**



## Ysgolion dalgylch Botwnnog

### Y Llwybr Cudd

Brawddegau ar gychwyn  
a'n 'sgidiau ni'n lân,  
gosod cerrig i eiriau  
i adeiladu ein cân.  
Afon Daron yn llifo'n braf  
dilyn y tymor o'r gwanwyn i'r haf.  
Mentro i mewn i'r llwybr cudd  
drain du yn barod i bigo  
yn barod i daro  
yn barod i frifo.  
Ond blodau hudol ddaeth i'n hachub  
sudd y ddafad  
a dant y llew.  
tafod y carw  
a chen fel blew.  
Nól am y Swnt  
a'n 'sgidiau yn flêr,  
eistedd ar y creigiau yn sipian ein te  
a phawennau dirgel y dyfrgi  
o gwmpas y lle.

**Ysgol Crud y Werin, Aberdaron**

### Ddoi di?

Wyt ti am ddod am antur i Nefyn  
Efo ni, griw Penperyn?

Lle mae golygfeydd glas, godidog  
A phobl ffeind a ffyddlon,  
A llond ceg o enwau  
Ar flaen ein tafodau.

Y Groes sy'n ganolbwynt, yn galon  
A'r llygaid lleol yn syllu  
Ar brysurdeb y stryd fawr.

Weli di'r dŵr wrth sefyll ar Y Tŵr?  
Weli di wyrddni'r caeau o gopa Garn Boduan?  
Weli di Lon Gam yn nadreddu i lawr i'r bae?

Glywi di'r plant ar y brêc yn neidio?  
Sgrechian, sw'n a sblasho!  
Glywi di'r ceir swnllyd ar y stryd,  
Lle mae'r dŵr yn dawel yn y ffynnon?  
Glywi di Nant y Felin yn byrlymu?  
A'r gân gysurus yng Nghae Cywion?

Da ni'n clywed yr enwau ar yr awel  
Wrth i ni gerdded hyd ben'rallt.

Wyddost ti bod hanesion di-ri  
Yn ein Nefyn ni.  
Fan hyn da ni'n perthyn.  
Fan hyn da ni i fod.  
Beth amdani... ddoi di?

**Dosbarth Penperyn, Ysgol Nefyn**



## Nefyn ein nefoedd

Mae Nefyn yn nefoedd, wyddoch chi?  
Y Gwylwyr a'r Garn sy'n ein gwarchod ni.

Yr Heliwr sy'n byrlymu o sgwrsio  
A phobl llon yn canu a dawnsio.

Tawelwch Pwll Wiliam sy'n gysur  
I'r chwiaid pluog a phrysur.

Gweiddi'n groch yng Ngharreg Lefain  
A chlywed ein neges yn atsain.

Y gwyrddlas hallt yn llyfu ein traed  
Ar draeth o dywod euraidd.

Yr hen forwyr a'u rhwydi trymion  
Ar fôr-forwyn o dan y wendon.

Mae hud yn yr enwau hyn,  
Yr enwau sy'n rhan o Nefyn.

**Dosbarth Hobwrn, Ysgol Nefyn**

## Dewch am dro!

Llwybr llydan a'r cerrig yn clecian.  
Pwll Wiliam yn llonydd ac yn llachar.  
Hwyaidd hapus yn dweud helo.  
Llwybr arfordir cul, peryglus.  
Tonnau yn taro ar y tywod.  
Cychod pysgotwyr prysur yn siglo ar y môr mawr.  
Lusgo tywod mân i fyny Lôn Bridin.  
Ceir cyflym yn gwibio heibio'r garej.  
Croesfan brysur Cae Coch.  
Morfa bach hardd yw ein Morfa bach ni.  
Ni bia Morfa a Morfa bia ni.

**Blwyddyn Derbyn a Blwyddyn 1, Ysgol Morfa Nefyn**

## Morfa Nefyn

Lawr lôn Bridin i Borthdinllaen,  
Criw Morfa yn edrych 'mlaen.  
Bad achub ar y moroedd mawr,  
Pysgotwyr yn brysur 'nawr.  
I Tŷ Coch mae pawb yn mynd,  
Chwarae ar y traeth gyda ffrind.

**Rap gan Ysgol Morfa Nefyn ac Ed Holden**



## Traeth Bryn Gwydd

*Cerdd wedi'i hysbrydoli gan nofel Meinir Pierce Jones, Capten*

Cyrraedd y traeth llawn lliw a llun,  
 Creigiau mawreddog yn hawlio'r darlun.  
 Ynsoedd o greigiau yn llawn teuluoedd o greaduriaid amrywiol.  
 Cregyn budur i lanhau'r mwd sy'n datgelu'r gwirliw.  
 Tonnau cadarn yn taro'r creigiau a sisial cyfrinachau.  
 Antur drwy neidio dros y cerrig camu llwydlas lithrig.  
 Anwybyddu pont droed bitw fel Merched Beca yn anwybyddu rheolau'r tollau  
 drwy ddefnyddio'r cerrig camu unigryw.  
 Llanw braf araf diog yn dod tuag atom yn swil a rhythmig fel tician cloc.  
 Olion cargo llong y Cyprian i'n hatgoffa o'r gorffennol.  
 Afon yn haneru'r 'chwarae plant o draeth' fel planhigyn yn ymestyn ei wreiddiau.  
 Sylwi ar beli golff yn swatio ymysg y gwymon gwlyb.  
 Sbwriel yn llygru ein darlun perffaith.  
 Broc môr brwnt a chrebachlyd yn adrodd storïau difyr di-ri.  
 Avel oer siarp yn chwythu ac yn cyffwrdd ein bochau coch fel ceirios.  
 Arogl hallt yn ein hatgoffa o sglodion anfarwol Siop Morfa.  
 Ewyn gwyn yn gysur fel llefrith poeth ar wyneb coffi.  
 Mynd adref o'r 'pwty'n cul o draeth' a throi cefn ar ddelweddau byw ein diwrnod.

Blynyddoedd 5 a 6, Ysgol Edern



## Cerdd Lythyr

Ysgol Edern,  
Lôn Rhos,  
Edern.

Annwyl Edern,

Caeau glas cynhyrchiol yn dy amgylchynu. Caeau anfarwol yn ein hatgoffa o gerrig traeth Aber Geirch. Blodau a choed yn ymlacio'n yr awel. Dy gyfaill ffyddlon, Afon Geirch, yn llifo'n braf a hamddenol fel curiad calon. Chdi yw canol cefn gwlad fel trwyn ar wyneb.

Olion cerrig anwastad yn ein hatgoffa o lonydd ddoe. Ceffyl a throl arferai drotian dros y bont; heddiw ceir aflafar diddiwedd sy'n amharu ar dy dawelwch. Plantos yn cael hwyl yn dy barc newydd. Ysgol gerllaw. Lle braf i fod gyda ffrindiau.

A wyt ti'n drist i weld dy gapel anferth ar glo? A wyt ti ar ben y byd fod drysau dy eglwys ar agor? A wyt ti'n fodlon dy fyd bod yr hen ysgol yn gartref i deulu lleol? A wyt ti'n hapus dy fyd bod Gwesty'r Goedlan yn ffynnu?

Ond weithiau mae ymwelwyr yn tarfu. Prisiau tai yn codi. Traffig yn cynyddu. Beth yw dy ateb: Ceryddu? Pwdu?

Hen Bost, Glanrhyd,  
Llygad yr Haul, Tŷn Lôn,  
Tyddyn Saith Swllt, Y Felin,  
a Mount.

Craigia, Cwmistir,  
Tŷ Athro, Elidir  
a Rhosgor.

Cae Bustach, Cae Eithin,  
Cae Crwn, Cae Glas,  
Cae Dan Bont, Cae Bryn Marchog  
a Cae Gorlan.

Diolch i ti am drysori'r enwau ar gof a chadw: Allt Goch, Bryn Gwydd, Ogof Bebyll, Lôn Pwll Clai, Llwybr Cam, Tir Bedw, Banhadlog a Bae Carreg yr Afr.

Crwydro neu aros. Dy garu di ar hyd ein hoes a wnawn ni.  
Cofion Cynhesaf,  
Blynyddoedd 5 a 6.

Blynyddoedd 5 a 6, Ysgol Edern

## Porth Ysgaden

Arogl halan yn yr aer,  
Y môr mawr yn glaer,  
Neidio i mewn i'r dŵr,  
Y gwylanod yn cadw stŵr.

Gruff a Jack, Ysgol Tudweiliog

## Porth Cychod

Y cytiau yn sefyll ers hir,  
Wedi eu angori yn y tir  
Y tonnau yn llyfu'r tywod  
Yn gadael eu hoel am gyfnod.

Elis a Mat, Ysgol Tudweiliog

## Porth Gwylan

Y gwylanod yn gweiddi  
Yn edrych am fwyd uwchben  
Yn plymio ar wib i'r dŵr  
Pysgodyn sy'n wobr.

Elis a Mat, Ysgol Tudweiliog

## Rhosgor

Morloi yn nofio drwy'r tonnau  
Yn gwneud sŵn gyda'u trwynau  
Haul yn disgleirio ar y môr  
Adar bach yn canu fel côr.

Ogof bach dywyll wrth y clogwyn  
Ar ddiwrnod braf yn nhymor y gwanwyn.  
Cerrig pigog sydd yn llithrig  
Yn beryg i'r plant ar ddiwrnod blinedig.

Lwsi a Nan, Ysgol Tudweiliog

## Ein Bro

Porth Ysgaden, Porth Cychod, Porth Ysglaig,  
Pyrrh bychain wedi'u naddu yn y graig,  
Porth Gwylan, Porth Tŷ Mawr, Porth Widlin  
Ar ochr Ogleddol y Penrhyn.

Pwll Garreg Goch, Stôl, Rhosgor,  
Llefydd gwych i ddal bwyd môr.  
Penrhyn Copr, Creigiau Delysg, Carreg Ebol,  
Y tonnau o'u cwmipas yn gofleidiol.

Lôn Cefn Pentra, Lôn Giatws, Lôn Trigwm,  
Canrifoedd o gamau yno'n batrwm.  
Coetan Arthur, Beudy Bigyn, Winllan Chwain,  
Mynydd Cefn Amwlech sy'n gwarchod rhain.

Fferm Penllech, Llain Fatw, Bryn Geinach,  
Aneddiadau hynafol bellach.  
Tyn Ffynnon, Ffynnon Ddwyfad, Ffynnon Cwyfan,  
Dŵr croyw, clir o dan y lechan.

Blwyddyn 5 a 6, Ysgol Tudweiliog



## Enwau di-ri

Pont y Gof, Coed Cofan  
 Chwarae cuddio, dringo coed.  
 Taflu cerrig i Afon Soch,  
 Rhedeg gwyllt dros Pont Rhyd Goch.  
 Tractor trwm dros Pont Trewan,  
 Bwyta picnic yn y guddfán.  
 Draw yn Trygarn, twrw mawr,  
 Hel y gwartheg, toriad gwawr.  
 Afon Horon yn droellog, droellog,  
 Rhannu llefrith yn bwylllog, bwylllog.  
 Reidio sgwter lawr yr allt,  
 Tuag at y môr mawr hallt.  
 Hel y defaid yn Llaniestyn,  
 Gweld siâp cath mewn cwmwl gwyn.  
 Llond y lle o enwau di-ri,  
 Ar lle yn llawn ohonan ni.

### Ysgol Pont y Gof

## Am dro

Mi aethom ni am dro  
 At bontydd o bob math,  
 Gan ddechrau ger Pont Cofan.

Ymlaen at Bont Rhyd Goch,  
 Pont Trewen oedd yn hyfryd  
 A Seithbont oedd yn hir.

Rhaid mynd yn bellach eto  
 I weld Pont Talsarn a Thowyn,  
 Ac i gyfeiriad arall i Ben y Bont Cellar.

Gwelsom dair afon ar ein taith,  
 Afon Horon ac Afon Cofan  
 Yn ymlwybro'n ysgafn at Afon Soch.

Roedd sawl Nant o'n cwmpas hefyd,  
 Nant Rhiwdar, Llaniestyn a Chaseg,  
 A throeddiom drwy Nant yr Henllyn yn llon.

Tydan ni yn lwcus?  
 Cael mynd am dro drwy ardal drawiadol  
 A hynny heb wario ceiniog!

### Ysgol Pont y Gof

## Tro rownd Mynytho

Mae yma stôr o hanes ac enwau ddaw a gwên,  
 Cawn gyffwrdd sawl cyfandir, atgof o forwyr hen.  
 Awn felly am ysgowtan ar hyd ein hardal ni  
 Gan ddod â pheth gwybodaeth a rhin y lle i chi.

New York, Cornwall a China, Yr Aifft a Chaliffornia,  
 Y Welings, Balaclava, fe'i gwelir yma i gyd  
 Yn gofeb i'n atgoffa o'r rhai aeth 'rownd y byd'.

Pengreigwen, Pant y Wennol, Siop Uchaf a Siop Ganol,  
 Siop Ffirwd a Siop Angorfa, Siop y Crydd a Siop Bryngola,  
 Siop Foelas a Siop Grasi - dim ond y 'Post' sydd yn goroesi.

Saith ffynnon s'gennym yma, mae sôn am rhain mewn llyfra':  
 Ffynnon Saethon, Ffynnon Fair, Ffynnon Rhos yw enwau tair,  
 Ffynnon Arian, Ffynnon Fyw, Ffynnon Sarff a Ffynnon Loyw.

Bu yma sawl i gapel, Horeb, Nant a Charmel,  
 A rhyw dro bu Capel Dafydd, gwyddom oll am Capel Newydd.

Mae enwau tai Mynytho yn wir yn rhai i'w cofio,  
 Tan Bwlch, Halfway a'r Bragdy, Ty Bries, Ynys a'r Sgoldy,  
 Pensgoits a Nant y Rhiwdar, Plas Ward, Rhedyn a'r Neuadd  
 Anfarwolwyd gan y bardd yng nghyfrol *Cerddi'r Gaeaf*.

Hoffwn gerdded llwybrau'r fro ac fe welwn ni bob tro  
 Olygfeydd sydd yn ein synnu, ac fe'i rhestrwn yma i chi,  
 Bwtsias y gog, a melyn yr eithin, llygad y dydd a blodau menyn,  
 Ffedog y Forwyn, grug y mynydd ac mi glywn gri'r Gylfinir.  
 Gweld Pen Llŷn o Ben Foel Gron, ardal berffaith ydyw hon.

A dyna chi ein bro mewn chwinciad chwannan,  
 Gobeithio y dewch i gyd am sgowt eich hunan.

### Ysgol Foel Gron, Mynytho



## Porth Neigwl

Lawr llwybrau tywodlyd hir,  
y tonnau yn wyllt fel y gwynt,  
y mynydd yn sibrdwr wrth y môr,  
cynylau bach yn crio dros y mynydd,  
gwlan defaid yn troelli yn y gwynt cryf.  
Pobl yn cerdded efo ei.  
Gwymon sgleiniog yn cysgu yn yr haul.  
Nól fyny'r llwybrau cyn nos.

Ronnie Overfield-Evans, Blwyddyn 5,  
Ysgol Sarn Bach

## Porth Neigwl

Haul hapus yn arnofio yn yr awyr,  
twyni tywod yn crio fel y glaw,  
tonnau cryf yn chwalu'r byd,  
machlud haul am chwarter i naw.  
Tonnau mawr yn neidio i'r lan,  
tywod aur, meddal yn sgleinio fel yr haul.  
Dolffiniaid yn neidio tra maer' adar yn canu.  
Sgerbwdd llwm dolffin yn arogl fel tail.  
Creigiau yn ddu fel ceg y diafol,  
crisial sgleiniog wedi ei wasgaru ar draws y traeth,  
y traeth yn dal yn fy esgidiau,  
a'r broc môr yn dal yn llaith.

Scott Embury, Blwyddyn 6, Ysgol Sarn Bach

## Ein Milltir Sgwâr Ni

Cae Hwsni, Pen Cleigr, Lôn Pin, Allt y Llan,  
Pig Bys Coch, Lôn Isa, Ben Cei ar Winllan.  
Cwt Powdwr, Cerrig Bychain, Gwaith Bach, Coffor  
Ddu.  
Enwau lleol i ni eu parchu.

Ogof Wil Puw, Nant Iago, Cae'r Wrach, Lôn Penbryn  
Trwy'r Nant, Gwaith Ifan a Chlogwyn Melyn  
Pentra Llan, Twll Dan Grisiau, Lôn Wen, Tan  
Mynydd.  
Enwau swynol sy'n haeddu defnydd.

Pen Coron, Nant Barrug, Bwlch Coch, Tŷn Tywyn.  
Nant Castell, Hen Dai, Y Ddelw a Gwaith Trwyn  
Tro'r Refail, Lôn Twtil, Y Gorad, Rar Ucha'  
Enwau sy'n fyw ar ein gwefusa'.

Lôn Bribwll, Tŷ Du, Bwlch Coch, Tocyn Cerrig,  
Llwybr Llymriaid, Gwaith Bach a Lôn Pengraig  
Pare Mawr, Tir Cwmwd, Pen Coron, Lôn Rabar  
Trysorau o enwau ein milltir sgwâr.

Dosbarth Tir y Cwmwd, Ysgol Llanbedrog

# Ysgolion dalgylch Glan y Môr



## Afon Erch

Darn o rhuban sidan, glas ydw i,  
Fel neidr yn symud o fore gwyn tan nos.  
Drwy'r caeau, pentre' ac at y môr,  
Troï a throelli ond bob tro 'run ffordd.

Rydw i'n swnllyd pan mae'n stormus,  
Ac yn llifo'n llyfn yn yr haf,  
Clywaf sŵn plant yn chwerrthin a rhuo traffig dros y bont,  
Adar yn canu'n swynol a'r gwynt yn chwibianu.

Rwy'n gynefin i rai ac yn bare i'r lleill,  
Pysgod, adar, pobol ac ambell i ddafad neu fuwch  
Sy'n ymgynnull ataf i dorri syched!  
Archwilio, trochi, sgimio a chael hwyl!

Canolbwynt y pentre' ydw i,  
Rydw i yma ers cyn cof,  
Cymuned sy'n fy ngwarchod,  
Ac yma y byddai am y tro.

Blynyddoedd 3 i 6, Ysgol Abererch







## Ffarwel

Ffarwel i Meini Gwynion,  
Ffarwel i Pen Copa,  
Ffarwel i Pen Tennyn,  
Ffarwel i Min y Môr.

Ffarwel i Caffi Largo,  
Ffarwel i Heli Bach,  
Ffarwel i Becws Islyn,  
Ffarwel i Ael y Don.

Ffarwel i Stryd Fawr y Groes,  
Ffarwel i Stryd Penlan,  
Ffarwel i Pentre Poeth,  
Ffarwel i Stryd y Llygod.

Indi Mai Jones, Ysgol Cymerau, Pwllheli

## Pwllheli yw

Pwllheli yw Sŵn y Môr, Y Prom a'r Ysgol  
Pwllheli yw cychod, hwylio a'r harbwr  
Pwllheli yw lan y môr, golff ac adra  
Pwllheli yw siopau, tai a strydoedd  
Pwllheli yw cychod, pysgod a thywod  
Pwllheli yw gwyrdd, glas a melyn  
Pwllheli yw Caffi Sol, Caffi Glasu a Caffi Largo  
Pwllheli yw adra.

Awel Nansi Tudor, Ysgol Cymerau, Pwllheli





## Hel Enwau

Aeth Robert Lloyd Jones y Sgwlyn gan mlynedd yn ôl  
Â chopi-bwc newydd dros fryn a dyffryn a dôl  
I nodi enwau difyr yr hen dyddynnod,  
Ac rydym ninnau heddiw ar ein hennill  
Am iddo weu'r holl enwau yn ddau bennill:  
On'd oedd Robert Lloyd Jones yn Sgwlyn hynod?

'Gwydir Mawr a Gwydir Bach, Llwyn Aethnen a  
Chefn Berdda,  
Gapas Lwyd, Nant Bach a Chwm, Tir Du,  
Llwyd Brig, Cae Cropa,  
'Sgubor Wen a Than-y-bwlch, Pen-lôn, Cae'r Foty,  
Morfa.'

Ond dydi cadw tyddyn ddim yn talu'r biliau:  
Aeth hen feudy Gwydir yn dŷ gwyliau,  
Ac felly Llwyn Aethnen, lle bu'r dail yn crynu...  
Campio sy'n Gapas Lwyd a'r Sgubor Wen,  
Yn y Morfa, Bert's Kitchen Garden a'i gytau pren,  
Ond yn y Tir Du mae'r ardd yn ffynnu.

'Lleiniau Hirion, Parsal, Graig, Uwchfoty, Tanyreigia',  
Tyddyn Coch a Nant-y-cwm, Dau Derfyn a Brynhudfa,  
Elernion, Maes-neuadd, Tyn-y-gors, Tai N'wddion,  
Bwlch, 'Rhendra.'

A does dim un o'r enwau wedi diflannu;  
Yng ngenau pobol Trefor maen nhw'n canu  
Er bod tyddynwyr newydd wedi dod.  
Mae Ianto'n dal i ffarmio Tyddyn Coch  
Ac mae'r Gymraeg yn uchel iawn ei chloch  
Yn Sea View Terrace ac yn Eiff Road!

Ysgol Yr Eiff, Trefor a Twm Morys

## Dewch am dro

Dewch am dro i'n hardal ni.  
Mês brown a dail gwyrdd ar ein bathodyn ni.  
Eglwys Carnguwch wrth yr afon droellog,  
ac ambell gwningen dawel yn hopian gerllaw.  
Draw yn Castell mae tarw coch llonydd iawn  
ac yn Cae Tŷ Rytan mae'r dail yn chwythu o ochr i ochr fel baner Cymru.

Dacw Pistyll y môr yn sgleinio fel sêr melyn,  
y llithren yn las fel llus,  
a'r hen gapel gwyn yn troi yn dŷ.  
Mae chwarel Nant Gwrtheyrn fel bol buwch  
tra bod cloddiau eithin melyn yn llenwi Lôn Rhosydd  
a'r morgrug prysur yn tyllu o dan y dderwen.

Neidr guddliw wenwynig yn cuddio yng nghae Pemprys  
a gwartheg Charolais cryf yn croesi Lôn Plas.  
Yn y pellter gallwn weld mynydd mawr a'r defaid fel eira  
tra bod buwch goch gota yn cael hwyl ar siglen yn Llanaelhaearn.  
Y Titw Tomos Las yn dweud tiw tiw wrth Afon Geirch  
A hoel y Pwmp dŵr oedd yn llifo'n glir ym Mela.

Blwyddyn 3 a 4, Ysgol Pentreuchaf a Casia Wiliam



## Enwau Cefn Gwlad Llŷn

Sut le fyddai fan hyn heb enwau?  
tai, afonydd, ffyrdd a chaeau?  
Hendra Wen, Gwynus, Beudy Bach –  
hebddynt byddai Cymru'n dlotach.

Pentre Bychan a Pont Pemprys,  
Mela, Wern, Winllan Bryn Pys,  
Taflu brigau i ddŵr yr afon,  
blodyn neidr a physgod llon.

Pont Bodefai a Mownt Tŷ Newydd,  
enwau hen ac enwau newydd,  
Ffridd a Carnguwch, trysorau Llŷn,  
Defnyddio a'u cadw nhw bob un.

Blwyddyn 5 a 6, Ysgol Pentreuchaf a Casia Wiliam



## Y Ffôr

Fourcrosses, fel bynsen y fro,  
Yn galon sy'n curo  
Yn fan cyfarfod  
Yn lôn sy'n arwain at glytwaith ein  
penra  
Yn bobol, yn straeon, yn enwa.

Y Gromlech hynafol  
Yma ers cyn cof  
Yn sefyll yn gadarn  
Boed storm neu haul.

Pwy fu'n clochdar yn y Pig Inn?  
Tafodau tewion yn sgwrsio,  
rhannu jôcs  
Cwrw cynnes yn llifo  
I lawr y lôn goch!

Sŵn y dŵr yn suo gan yr haearn  
A gwreichion poeth yn tasgu fel sêr  
Yn Lôn Tŷ'r Gof.

Gweddïau tawel yn llenwi  
Salem ac Ebeneser  
Ar 'A Oes Heddwch?' yn atsain  
Yn y Steddod pob Ebrill.

Cymeriadau doeth a drygionus  
O Tŷ'n Lôn Bach, Ann Owen y  
Doctor Dail

I Leusa Pys a Mary Chips  
Ar Lôn Caernarfon –  
Lle roedd ogla saim yn llenwi  
ffroena  
A blas halen a finag ar wefusa.

Bara ffres a photeli llefrith  
Yn Siop Gwynfa  
Jariau lliwgar o fferins  
Taffi triog, licyris a lolipos  
A llygaid y siopwr clên yn gwenu  
Tu ôl i fframiau'r sbectol drwchus.

Heddiw mae'r plant yn chwarae  
Ar stad tai lego Dolwar  
Yn reidio beics  
A chicio pêl fel Gareth Bale.  
Yn prynu Haribos a Jollyranchers  
Yn Londis  
A rasio chwiaid melyn plastig  
Dan bont Rhydygwystl.

Ym Mro Plenydd  
Mae'r plant yn dysgu a thyfu  
A hyder i'w glywed  
Yn eu chwarae a'u chwerrthin.

Yn y bore bach  
mae'r afon Erch yn siffrwd.  
Er bod y lôn yn dawel  
Bydd ei chalon yn parhau i guro  
T'an bydd pawb yn deffro.

Blwyddyn 3 a 4,  
Dosbarth Tre'r Ceiri,  
Ysgol Bro Plennydd

## Ffynnon Cybi

Yn Ffynnon Cybi  
Ni yn unig sy'n gweld  
Y dŵr yn ochneidio  
Y ddafad yn blincio  
Y blodyn glas yn poeni  
Y coed yn cerdded  
Y garreg yn rowlio  
Y brwyn yn bwyta mwd.

Wrth gerdded adra  
Ni yn unig sy'n cofio'r cerrig.

Dosbarth Armon, Ysgol Llangybi, Sian Northey a Sion Aled

## Chwilog drwy'r tymhorau

Welwch chi yr ŵyn yn prancio yng nghae Hafod y Rhos?  
Welwch chi'r haul yn disgleirio ar wyneb Afonwen ac Afon Ddu?  
A welwch chi'r wiwerod llwyd yn bwyta cnau cyll ar y Lôn Goed?  
A welwch chi goelcerth wynias yn dawnsio yn yr oerni ym mharc Glasfryn?

A glywch yr adar a'r cywion bach yn canu yn swynol ar do yr ysgol?  
A glywch chi lais y gwew yn atsain yn y goedwig yn Ysgubor Hen?  
A glywch chi'r dail crebachlyd yn crensian ar lwybrau Lôn Plas?  
A glywch chi'r robin goch hardd yn swnian am fwyd yn cae Moneifon?

Allwch chi aroglï cawl cennin yn ffrwtian yng nghegin y Madryn?  
Allwch chi aroglï'r môr hallt a'i donnau hardd?  
Allwch chi aroglï yr afalau triog pereiddiol Neuadd Chwilog?  
Allwch chi aroglï Pwdin Efrog llawn greffi hyfryd yn siop Poveys?


Allwch chi flasu cacennau croes poeth crensiog yn nghegin Pen Y Bryn?  
Allwch chi flasu'r sglodion seimllyd ar y traeth yn Afonwen?  
Allwch chi flasu cŵn poeth ardderchog yn Poveys?  
Allwch chi flasu y mins peis chwaethus yn Minafon?

A deimlweh wŷn bach diniwed yng nghae Gwag y Noe?  
A deimlweh y tywod aur a meddal ym Mhen Ychain?  
Allwch chi deimlo y gyllell finiog yn eich llaw wrth gerfio pwmpen?  
A deimlweh y presantau dirgelus o dan y goeden Nadolig?

Ysgol Chwilog



# Ysgolion dalgylch Eifionydd



## Tro Rownd Garn

Maes Hyfryd, Capel Horeb,  
Bodwian, Brandy Bach,  
Hen Siop a Tan yr Ogof,  
Cae Llyn a Cocyn Bach.

Cychwyn yn yr ysgol,  
Rhwngddwryd yn y pant,  
Bro Pedr a Chae'r Arba  
Yng nghanol chwerrthin plant.

Llithro i Gae Pistyll,  
A theimlo'r awyr iach,  
Yng nghanol melyn eithin  
A thelyn deryn bach.

Rowlio i Gaer Ffynnon  
Yn gyflym fel y gwynt,  
Heibio bwrlwm Llystyn  
Tuag at y felin wynt.

Bryn Eithin, Afon Dwyfor,  
Glan Gors a Bryn Eifion,  
Tŷn Dŵr, Pen y Bont, Cae Amos,  
Llwyn Betws, Carreg Gron.

Sleifio heibio'r llwynog  
Sy'n swatio ger y groes,  
Yn yfed ewrw budur  
A sefyll ar un goes.

Stelcian drwy Fro Gwgan  
Cawr ein cynefin ni,  
A groesodd Afon Dwyfor  
A chamu drwy ei lli.

Rhuthro at Gapel Isa  
A thros y gamfa wen,  
Cyrraedd nôl i'r ysgol  
A'r daith yn dod i ben.

Ysgol Garndolbenmaen



## Ein Gorlan Ni

O dan ein traed mae Creigiau Dre  
A'r byd yn llonydd a thawel.  
Mi welwn bopeth o fan hyn  
A chlywed pob smic yn yr awel.

Gweddi fach yng Nghapel Peniel  
A'r dringwyr dewr ar Bwlch y Moch.  
Cysgod oer dan goed y Nyrseri,  
Babanod Jac-y-Do yn glir fel cloch.

Plant yn cerdded hyd Lôn Haearn Fach  
Ar eu ffordd i greu atgofion.  
Tan yr Allt sydd llawn hanes,  
Gofal Alltwen mor ffeind a ffyddlon.

Cwmystradllyn a'i lyn arbennig,  
Cuddio mae yr Afon Clennau.  
Canu'r gog a glywir yn Golan,  
Smotiau gwyn ar hyd y caeau.

Pobl brysur ar y Sgwâr,  
Sglodion blasus Chippy Dre.  
Hon yw'r ardal ora' erioed,  
Ein Gorlan ni, fan hyn yw'r lle.

Blwyddyn 4 a 5, Ysgol y Gorlan

## Borth y Gest

Ar ben yr allt mae Ysgol Borth y Gest,  
Capel Bethel sydd ar yr un stryd,  
Clwb Golff sydd yn brysur yn yr Haf,  
y tai lliwgar yn sefyll o hyd.

Heol Ralff a Heol Eiddew,  
Stryd y Pwmp a Tan y Foel,  
Cefn y Gader a Garreg Goch -  
dyma ein strydoedd anhygoel.

Lama gwyn a brown yn poeri trwy'r giât,  
Gwylanod swnllyd yn hedfan o'n cwmpas,  
moch budr yn ymlacio yn y mwd.  
Rydym rhwng y mynyddoedd a'r môr glas.

Bae Samson yw lle mae hanes yn gorwedd,  
cerrynt cryf sydd yn llifo yn y môr,  
cychod bach sydd wedi angori yn y bae.  
Does dim llongau yma rhagor.

Pentref Cei Bach a'i dai amryliw,  
yn hafan i bawb ym mhob tymor,  
Hufen ia a chestyll tywod,  
does unman fel Borth i godi calon.

Ysgol Borth y Gest



## Beddgelert yw...

Afon Glaslyn, Afon Colwyn, Llyn Llywelyn  
Rhaeadr Watkin, Llyn Dinas, Llyn Cwellyn

Moel Hebog, Yr Wyddfa ar Aran  
Cnicht, Moel Lefn, Craig Llan

Ochr Draw, Tŷ Isaf, Dinas Emrys  
Chwarel Sygun, Castell, Cae Morys

Plas Oerddwr, Llyn Celyn, Glan Cymer  
Cwm Cloch, Fedw Bach, Nant Dŵr Oer

Cwm Bychan, Tanronnen a hufen iâ  
bedd y ci, Aberglaslyn ac adra!

Ysgol Beddgelert



## Yn Llanystumdwy...

Yn Llanystumdwy gwelaf...  
Afon Dwyfor yn dawnsio a chwerthin o dan yr hen bont hardd.  
Capel Moriah, fel darn bach o Bortmeirion yn ein pentref.  
Yr Ysgol, y lle i ddysgu am y gorffennol a'r dyfodol.  
Cwt Y Plu wedi ei beintio'n lliwgar gan blant y pentref.  
Teuluoedd yn wên o glust i glust yn y Fferm Gwningod.  
Bedd Lloyd George, y bachgen gyda breuddwyd.

Yn Llanystumdwy aroglaf...  
Pitsas hyfryd Y Plu.  
Byd natur ac arogl iach y fferm.  
Yn Llanystumdwy blasaf...  
Afalau o goeden Lloyd George.  
Cynnyrch lleol yng Siop Y Plu.  
Cinio ysgol bendigedig.  
Bisgedi blasus Tŷ Newydd.

Yn Llanystumdwy clywaf...  
Yr afon yn byrlymu'n swynol yn gerddoriaeth gefndirol i'r pentref.  
Anifeiliaid y fferm yn swnllyd.  
Tawelwch yr eglwys a'i mynwent gyda'n hanes ar bob carreg.  
Canu a sgwrsio llawen yn y Plu,  
Chwerthin iach y plant yn yr ysgol.  
Dail yn sisial yn y gwynt.

Yn Llanystumdwy teimlaf...  
Y cariad yn yr adeiladau.  
Y garreg filltir llyfn ac oer.  
Awyr iach yn fy ysgyfaint.  
Yr haul melyn, cynnes ar fy wyneb.  
Byd natur ym mhob man.  
Teimlaf yr hanes yn yr aer.

Yn Llanystumdwy mae fy nghalon.

Dosbarth Dwyfor, Blynyddoedd 3, 4, 5 a 6,  
Ysgol Llanystumdwy



## Yma yn Nhŷ Newydd

Yma yn Nhŷ Newydd 'da ni'n gweld Harlech dros y môr,  
a blodau pinc a melyn del yn dawnsio'n hapus yn un côr.  
Yma yn Nhŷ Newydd mae 'na gadair anferth, fawr,  
yn sefyll yn ei hunfan yn yr ardd, yn dal fel cawr.  
Yma yn Nhŷ Newydd dwi'n gweld llyfrau hyd y lle,  
yn tyfu dros y waliau, reit o'r gwaelod hyd y ne!  
Yma yn Nhŷ Newydd dwi'n gweld golau cŵl a sgleiniog,  
uwch fy mhen ar y to, fel soser ofod hedegog.

Yma yn Nhŷ Newydd mae 'na sŵn awyr iach,  
sŵn wiwerod yn dringo, sŵn twit twit adar bach.  
Yma yn Nhŷ Newydd dwi'n teimlo pren llyfn, caled y bwrdd,  
a chlywed sŵn whhlysh awyren yn hedfan i ffwrdd.  
Yma yn Nhŷ Newydd dwi'n clywed beiro yn crafu,  
a sŵn pryfaid cop yn y corneli'n anadlu...  
Yma yn Nhŷ Newydd dwi'n clywed gwynt yn y brigau,  
a dwi'n clywed sŵn swnllyd y plant hŷn lawr y grisiau.

Disgyblion Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a 2,  
Ysgol Llanystumdwy

## Antur yn Nhŷ Newydd

Cyrraedd Tŷ Newydd.  
Adar yn canu.  
Anadlu'r awyr iach ac ymlacio.  
Antur newydd.  
Dwi'n gweld y wiwer a'r gath yn rasio i fyny'r goeden  
i gael golygfa o'r ardd wrth i'r gwanwyn ddeffro.  
Dwi'n arogl i'r gwair tu allan, yna dwi'n cael fy arwain  
gan fy nhrwyn i'r tŷ gan arogl y bisgedi melys.  
Mae llyfrau lliwgar o'n hamgylch fel blodau'r ardd  
a stori a hanes o'n cwmpas i gyd.  
Yma yn Nhŷ Newydd dwi'n teimlo drafft drwy'r ffenestr  
gron,  
A dwi'n teimlo hen waliau carreg, a'r llechi llwyd a phiws  
a gwyrdd a'r tŷ yn oer.  
Ond mae fy nghariad tuag at y lle yn fy ngwneud yn glyd  
a chynnes.  
Gadael Tŷ Newydd - wedi cael antur newydd.

Blynyddoedd 3, 4, 5 a 6, Ysgol Llanystumdwy



## Cricieth

Daw llawer o hanes o'n tref arbennig ni,  
O adeiladau diddorol i strydoedd di-ri.  
Trefferthyr oedd ei henw ar y dechrau wyddoch chi?  
Hanes St Catherine ein Merthyr a'i thref hi.

Ceir caeau gwahanol fel y Weirglodd Ganol,  
Llain Hir, Llain fawr a Llain fach.  
Cae Garreg, Cae Bach a Cae Calch,  
Cae dan Tŷ, Cae'r Uchaf, Cae Canol.

Corsiog oedd ein strydoedd o'r blaen,  
Helyg a dyfai ar y Waen,  
Dros y ffordd i Waen Helyg daw Tŷ'n Rhos,  
Y bwthyn ar dir oedd fel rhyw ffos.

Adeiladau hanesyddol ym mhob man,  
O westai Y George, Y Lion a Chae'r Wylan.  
Bron Eifion, Parciau, Tŷ'r Felin,  
sy'n leoliadau gwych yn ein cynefin.

Yna daeth Cricieth o'r geiriau 'crug caeth'.  
A elwir am y carchar yn y castell ger y traeth.  
Ond cwestiwn sy'n peri penbleth o hyd ac o hyd,  
Oes dwy 'C' yng Nghricieth gofynnaf i'r byd?

**Ysgol Trefferthyr, Cricieth**



## Dewch...

Creigiau geirwon, tywod suddedig,  
Creigiau gleision a thraethau cuddiedig,  
Môr ffyrnig yn fgythiol, a thonau llyfn yn cosi.  
Ugain o nysoedd oedd fan hyn.

Gweledigaeth William Madocks,  
Gwaith caled y werin datws,  
Rhawio, cario, torri chwys a mwyy...  
Creu y Cob a'i tholl cofiadwy.

Trên yn cario llechi trymion,  
O'r chwareli lawr fel allforion,  
Porthladd rhen Madocks yn ei hanterth,  
Diolch i'r môr am ei aberth.

Adeiladu llongau moethus,  
Ysblennydd, cain a chreffftwaith graenus.  
Mynd i bedwar ban y byd,  
Ond fan 'ma ydy adra o hyd.

Golygfeydd godidog, cymeriadau bachog,  
Dewch am baned, dewch am wyliau,  
Dewch i weld natur ar ei orau.  
Ond cofiwch...  
Ugain o nysoedd oedd fan hyn.

**Ysgol Eifion Wyn, Porthmadog**





# Ysgolion dalgylch Meirionnydd



## Ein cynefin

Tywod euraidd a thonnau gleision, crisial,  
Hapus fy mynd yn yr haf tesog, meddal.  
Atgofion cynnes o chwarae'n y twyni,  
Dyma nefoedd y Traeth Bach i mi.

Cyffro, gweiddi a chlapio,  
Gorfoledd - a thor-calon,  
Crysau glas a gwyn yn gwibio -  
CPD Penrhyn am y gwpan!

Twrnament cyffrous sydd yma bob blwyddyn  
A noson wobrwyo sy'n llawn hwyl a sbri.  
Dyma ran fawr o fy mywyd llawen  
Am mai hwn yw fy nghlwb pêl droed i.

Drysau gwyrdd yn agor -  
cardiau pêl-droed, fferins a chreision,  
Dyma'r lle gorau ym Mhenrhyn,  
Dewch i Siop Dewi am ddanteithion.

Pitsa blasus sydd ym Mhortmeirion,  
Castell a thraeth a gwesty moethus,  
Tai Eidalaidd lliwgar a thirion,  
Ar Gwyllt yn ddrysfa goediog, anturus.

Sioe Nadolig yn y Neuadd Goffa,  
Chwarae'n sionc yn y parc a'r Topia,  
Minffordd, Adwy Ddu a Pant,  
Dyma nefoedd i ni y plant.  
Pont Briwet, Gwaith Powdwr: atgofion melys -  
Y rhain oll yw ein cynefin hapus.

Ysgol Cefn Coch, Penrhyndeudraeth

## Talsarnau

Tro i'n hardal ni sydd wych  
A chewch mo'ch siomi, saff i chi!  
Lasynys Fawr, tŷ hynod iawn  
Sy'n gartref siŵr, i Ellis Wynne.  
Afon Dwyrdd lifa'n braf  
Rhwng Ynys Giffan a'r Traeth Bach.  
Ni wyddom pwy yw'r bwbach bach,  
A tybed welwn Tecwyn Sant, ei eglwys a'i ddau lyn?  
Ust! Gwrandewch ac edrychwch ar ryfeddod.

Ysgol Talsarnau

## Llanfrothen

Pen Tŵr yn sefyll ar y bryn,  
Y gweilch yn 'sgota yn y llyn.

Llwybr llechi i'r chwareli,  
Tro trwy'r goedwig hyd at Y Gelli.

Ysgol brysur, plant llawn hwyl,  
I'r Ring yr ewn i ddatlu gŵyl.

Plas Brondanw, gerddi tlws,  
Y Cnicht yn gadarn yn ei chwsg.

Pant y wrach, hen chwedl anfoesol,  
Mae bywyd Llanfrothen wir yn ddiddorol.

Ysgol y Garreg, Llanfrothen



# Ysgolion dalgylch Arfon

## Bangor

Ym Mangor mae'r afon Adda  
Yn llifo dan y lôn,  
A phontydd Menai a Britannia  
sy'n croesi i Sir Fôn.

Ym Mangor mae stryd fawr hir –  
yr hiraf un yng Nghymru,  
a mynydd Bangor sy'n lle braf  
i edrych ac i syllu.

Ym Mangor mae cloc y ddinas  
yn canu cloch bob awr,  
a phrifysgol hanesyddol  
sy'n lle mor werthfawr.

Ym Mangor mae Ysbyty Gwynedd,  
yn helpu a gofalu.  
Lawr y ffordd ym Mhenrhos,  
Plant y Garnedd sy'n gwenu.

Ym Mangor mae Cadeirlan enwog,  
yn sefyll ar y stryd.  
Clamp o ddinas yw Bangor,  
yr orau yn y byd.

Blwyddyn 5 a 6, Ysgol y Garnedd

## Pentref bach ni

Fy mhentref bach i,  
Mynyddoedd di-ri,  
Chwareli llwyd,  
Hen beiriannau yr oes a fu,  
Comin Uwch Gwyrfai,  
Tir corsiog a gwlyb.

Fy mhentref bach i,  
Caeau llawn straeon,  
Enwau rhyfeddol.  
Pwy oedd yn byw yng Nghae'r Sais?  
Beth yw'r adfeilion yn Pantiau?  
Ydw i'n troedio ble fu Kate Roberts gynt?

Fy mhentref bach i,  
Ysgol gartrefol,  
Mountain Ragers swllyd,  
Chwyrlligwgan y parc yn troelli,  
Capel gwag lle bu bwrlwm gynt,  
Defaid yn erwydro y Lôn Wen.

Fy mhentref bach i,  
Golygfeydd godidog,  
Castell Caernarfon,  
Machlud lliwgar,  
Môr yn disgleirio,  
Rhosgadfan.

Ysgol Rhosgadfan



## Ponciau a Sinciau Dyffryn Peris

*Roedd Chwarel Dinorwig wedi ei rhannu'n amryw o ardaloedd gwaith. Roedd yr ardaloedd hyn yn aml yn cael eu galw yn bonciau neu sinc fel arfer. Roedd enwau gwahanol ar y rhain, rhai wedi eu henwi ar ôl gwledydd neu ardaloedd, rhai ar ôl ffermydd lleol oedd yn ffinio â'r ardal gloddio, eraill ar ôl aelodau o deulu'r perchennog ac eraill ar ôl rhai o'r chwarelwyr nodweddiadol a fu'n gweithio yno. Mae amryw o'r enwau hyn wedi eu cofnodi ond maent yn brysur cael eu colli wrth i fewnfudwyr ac ymwelwyr ddod i mewn a bathu termau Seisnig newydd sy'n cyd-fynd â'u hargraff nhw o'r tirlun yn hytrach na'r hanes a'r traddodiadau cyfoethog sy'n perthyn i'r ardal. Rydym ni yma yn Ysgol Gymuned Penisarwaun yn awyddus i gadw enwau gwreiddiol y ponciau a'r sinciau hyn yn fyw. O ganlyniad rydym wedi bod yn casglu enwau'r ponciau hyn ac wedi mynd ati i greu barddoniaeth er mwyn hyrwyddo'r enwau.*

## Sinc

Wembley, Ponc yr Aifft ag Abysinia,  
New York, Aberdaron a Chalifornia,  
Hafod Owen, Marchlyn ac Awstralia,  
Dyma enwau rhai o'r ponciau.

Ponc Enid, Harriet, Alys a Matilda,  
Chwarel Vivien, Julien a Veronica,  
Anfarwoli'r teulu breintiedig  
Oedd berchnogion ar Ddinorwig.

Ponc Robin Dre a Phonc Dafydd 'Refail,  
Ponc Edward Jones a Phonc Robin 'Rabar,  
Dyma gymeriadau lleol dylanwadol  
A wnaeth argraff yn y Chwarel.

Twll y Mwg a Thwll y Dwndwr,  
Twll Clawdd a Phonc y Teiliwr,  
Yr Allt Goch a'r Allt Ddu,  
Yr hen enwau - dyna'n dewis ni!

Braint cael dysgu am y Chwarel a'i phobl  
A pharchu hen enwau a'i pasio'n ddiogel  
I genhedlaeth newydd o blant  
Sy'n falch o ddysgu am eu hardal!

Ysgol Gymuned Penisarwaun

## Llinyn Aur

(gyda diolch i Hilma Lloyd Edwards)

Hen enwau'r fro  
ar gof a chadw,  
y llinyn aur  
rhwng ddoe a heddiw.

Ysgol Bontnewydd



## Afon Llifon

Afon Llifon sy'n llifo i lawr  
O gopa godidog y Mynydd Mawr,  
Trwyr Fron neu Cesarea gynt,  
Yn mynd a mynd fel y pedwar gwynt.

Heibio Penyrorsedd a Thwll Braich,  
Lle gariai'r chwarelwr ei bryder a'i faich,  
Tuag at Fynydd Cilgwyn,  
Yr eithin, grug ac ambell flodyn.

I Garmel, y pentref heddychlon,  
Hen gapel Pisgah yn llawn atgofion,  
Heibio Tanyffordd a Tanybryn,  
Draw i Lys Llifon, yr hen dyddyn.

Lawr i ffermydd Grafog a Cefn Nen,  
Lle mae pentref prydferth dros ben,  
Grugan Wen, y tŷ cyntaf,  
A Fferm Tyddyn Dafydd, un o'r hynaf.

I Groeslon, sy'n dathlu canrif o'r neuadd,  
A chanolbwynt y fro, ein hysgol gynradd,  
Yma mae plant llawen a llon,  
Yn dysgu ynghyd yn Ysgol Bro Llifon.

Blwyddyn 5 a 6, Ysgol Bro Llifon



## Perlau gloyw – arwyddion yn cadw enwau'n fyw @darnbachodir Morwen

Os ydych chi yn un o ddilynwyr @darnbachodir a @cofnod2023 neu yn cerdded y llwybrau o gwmpas Llanbedrog rydych yn gyfarwydd â gwaith Morwen. Mae ei gwaith yn gwbl gwbl arbennig.

'Mae'n bwysig cadw'r hen enwau 'ma'n dydi?' meddai rhywun wrtha i y diwrnod o'r blaen. Wel... yndi, ond nid 'hen enwau' yn unig ydyn nhw. Ond enwau. Enwau ydyn nhw, sy'n bod heddiw. Ar dafodau cymuned, pentref, teulu, neu unigolion hyd yn oed. Yn enwau byw i'r bobol sy'n eu gwybod, ac yn eu defnyddio. Nid ffosiliau i'w llusgo gerfydd eu clustiau o'r gorffennol. Rhaid cofio hefyd fod enwau yn newid dros amser – rhai'n aros run fath am genedlaethau, eraill yn newid yn raddol dros y blynyddoedd, eraill eto'n mynd ar goll ac enwau newydd yn dod yn eu lle, er enghraifft pan fydd fferm yn newid dwylo. Ond loes calon ydi gweld Tannynydd yn troi'n Forget me not Cottage dros nos, Bryn Ffynnon yn Well Farm, neu'r Hen Dai yn Tide's Reach. Mae hyn yn wahanol. Ond er y difaterwch a'r anwybodaeth a ddaw yn sgil rhai mewnfudwyr mae ein defnydd ni o'n henwau cynhenid yn chwarae rhan enfawr yn eu parhad.

Mae enwau'n cyfoethogi ardal a thirwedd i mi. Yn berlau gloyw sy'n adleisiau o fywydau, profiadau, syniadau, ofnau a hiwmor pobl a fu'n byw yma. Mae nhw'n dangos cymaint nes at y tir a'r môr oedden nhw nag ydan ni erbyn hyn. Mae ffordd o fyw yn newid, ac mae enwau'n cael eu colli. Mae ystyr rhai ohonynt tu hwnt i'n deall a'n dychymyg yn aml, ond dim ots, maent yn ychwanegu at naws ac ysbryd lle.

Dwi wrth fy modd efo enwau. Mae nhw'n fy swyno. Mae nhw'n tani'o'r dychymyg. Mae nhw'n eiriau sydd ddim yn unig yn labelu lle ond yn dod yn rhan ohono, ac

yn cyfoethogi ein profiad. Mae gan iaith y grym i siapio ein synnwyr o le. Mae dweud enw yn ei wreiddio yn ein meddyliau ac yn ein calonau. Mae'r enwau sydd ddim ar fap, enwau gwaith, enwau profiad, enwau disgrifiadol, yn cael eu cario ar fapiau'r meddwl, y galon, a'r cof. Dwi'n dal fy hun yn aml, wrth fynd am dro, yn adrodd neu lafarganu yn fy mhen, un enw ar ôl y llall, gan greu rhyw 'songline' fy hun i ddarn o dir. Ydi, mae'n gyfrifoldeb i ni eu diogelu, i'w defnyddio. Ond mae hefyd yn bleser i'w gadael i lifo, i dreiglo, i rowlio, i lamu a dawnsio'n orfoleddus dros ein tafodau, a chyfoethogi ein bywydau heddiw.

Mi ddechreuais dudalen instagram dro'n ôl - @darnbachodir – fel rhyw gofnod gweledol o enwau ardal Llanbedrog lle cefais fy magu. Eleni daeth prosiect Cofnod2023 gan Bwyllgor Celf Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd ym Moduan. Mi sefydlwyd grŵp Facebook a thudalen instagram - @cofnod2023. Y syniad ydi creu arwyddion o enwau lleol a thynnu eu lluniau yn eu lle i'w rhannu ar y grŵp, gan eu gosod yn fwy parhaol yn nes at amser y Steddfod. Y bwriad a'r gobaith ydi cael dathliad lliwgar o enwau Llŷn ac Eifionydd erbyn y Steddfod fel y gall ymwelwyr eu gweld wrth grwydro'r ardal. Y mae @cofnod2023 ar yr arwyddion fel y gallant fynd ar y wê a chael hyd i fwy ohonynt.

Morwen Brosshot, Botwnnog.

## Rhostryfan

Yng nghysgod clyd Moel Tryfan yn Nyffryn Nantlle werdd; a'i llond o natur prydferth yn dawnsio i nodau cerdd, lle lliwgar, prydferth fel y wawr Hen bentref bach a chalon fawr.

Dros bant a bryn a thros y lli rhowch bentref Rhostryfan i mi. Drwy Gymru fynyddig, a'r gwledydd di-ri, rhowch bentref Rhostryfan i mi.

O ben copa Moel Tryfan Llif Afon Llifon ar daith; O Fron Deg i Fro Gwyled mae dyfodol iach i'r iaith. Pan af i bedwar ban y byd mi fydd yn gwmni i mi o hyd.

O'r Wernlas Wen i'r Wernlas Ddu a'r hanes cyfoethog a fu, a Hafoty Geltaidd, a'i olion di-ri, rhowch bentref Rhostryfan i mi.

Ysgol Rhostryfan





# EISTEDDFOD Llŷn ac Eifionydd 5-12 Awst 2023

## Gwaddol

Mae'r gyfrol hon yn gyfle i ni gamu mewn i ddychymyg ein plant a chael blas ar brosiect cwbl arloesol ac arbennig a grëwyd gan Eysyllt Maelor, Cadeirydd Pwyllgor Llenyddiaeth Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd.

Mae Gair mewn Gwlan wedi llwyddo i uno cymunedau a chenedlaethau gan roi cyfle i bobl ddod at ei gilydd i ddysgu mwy am eu treftadaeth leol, a hynny mewn cyfnod pan mae'r byd yn ailagor yn dilyn blynyddoedd anodd y pandemig.

Pinael prosiect cymunedol dros gyfnod o ddwy flynedd a mwy yw gwyl yr Eisteddfod. Y nod yw gadael gwaddol yn lleol, boed hynny'n waddol ieithyddol, diwylliannol, cymdeithasol, gwirfoddol neu ddigidol. Mae Gair mewn Gwlan yn adlewyrchu hyn yn berffaith, mewn ffordd sy'n rhoi ein hysgolion yng nghalon ein cymunedau, a chreu cyfleoedd arbennig i bobl o bob oed i ddefnyddio ein hiaith.

Diolch o galon i bawb fu'n rhan o'r prosiect, i'r rheini a fu'n creu carthenni bendigedig, i'r ysgolion a fu mor barod i gefnogi a chroesawu'r cydweithio cymunedol, ac i Lenyddiaeth Cymru am eu cefnogaeth ddiffino. A diolch arbennig i Eysyllt a'i thim o wirfoddolwyr sydd wedi gyrru'r prosiect o'r cychwyn, o'r apêl am wlan a gyrrhaeddodd bedwar ban byd, i'r oriau o dynnu popeth at ei gilydd, a'r cydweithio hapus gydag ysgolion ar draws y fro. Mwynhewch y cynnyrch a'r carthenni cymunedol.

Gwenllian Carr, Cyfarwyddwr Strategol  
Eisteddfod Genedlaethol Cymru

## Y Blodau

Mewn gardd o gyfrol  
mae'r enwau'n blodeuo'n lliwgar,  
border o benillion.  
Ond mae'r garddwr yn gwybod  
mai dofi dros dro sydd yma,  
gan mai gwyllt yw'r blodau yn eu hanfod.  
Eisiau bod ar gloddiau  
bob ochr i'r sgwrs.  
Eisiau tyfu ar fympwy  
mewn neges destun.  
Eisiau dwyn i gof,  
yn arogl atgof.  
Eisiau byw  
am fod eu gwreiddiau yn cyrraedd  
y tu hwnt i'r border bach  
a'r ardd daclus.  
Blodau blerwech ein hiaith yw rhain,  
gadwch iddyn nhw dyfu'n wyllt.

Anni Llŷn

## Porth

O Borth Ysgaden i Borthdinllaen,  
Mae blas o fod y ffordd yma o'r blaen;  
Porth Solfach, Porth Neigwl a Phorth Tŷ Mawr:  
Mi fedran ddeud straeon hyd doriad y wawr;  
Porthoedd allforio cerrig a mwyn;  
Porthoedd mewnfario'r byd mawr a'i swyn;  
Ond o bob porth, Awst leni pia'r un:  
Porth i'r Eisteddfod yn Eifionydd a Llŷn.

Myrddin ap Dafydd

# Diolch

I Delyth Roberts am y teitl, am fwrw golwg dros y testun, ymweld ag ysgolion, hwyluso'r prosiect a'r cyngor doeth.

I Rhian Williams, Carys Lake, Anwen Hughes, Gwenan Elis Jones am ddangos fod sawl ffordd i roi'r geiriau mewn gwlan.

I Mared Roberts, Llenyddiaeth Cymru, Tŷ Newydd, Llanystumdwy am yr holl waith cysylltu a threfnu, am olygu'r cerddi ac am gefnogaeth di-ben-draw.

I Llenyddiaeth Cymru am noddi. Cynhaliwyd gweithdy barddoniaeth i athrawon yn Nhŷ Newydd dan arweiniad Casia Wiliam a bu'r Prifardd Twm Morys a'r dramodydd Mared Llywelyn am ymweld ag ysgolion.

I Casia Wiliam am sbarduno ac ysbrydoli athrawon a disgyblion.

I'r holl athrawon sydd wedi bod ynghlwm â'r prosiect pan fo sawl prosiect arall ar y gweill ganddyn nhw.

I'r disgyblion am eu brwdfrydedd heintus ac am rannu'r cerddi ac i bawb am rannu stori a phrofiad.

I bawb sydd wedi cyfrannu i'r gyfrol hon - mawr y diolch.

I bawb o bell ac agos, sy'n rhy niferus i'w henwi i gyd, fu'n gweu, yn crosio, yn gwnio, yn brodio ac yn rhoi oriau o'u hamser i ddangos beth sy'n bosib pan ydym yn cyd-ymwneud.

I bobl Llŷn ac Eifionydd am estyn gwahoddiad i'r Eisteddfod Genedlaethol ac i staff yr Eisteddfod am hyrwyddo Gair Mewn Gwlan. Diolch arbennig i Gwenan Elis Jones am forol fod yr ysgolion yn cael cyfle i gyflwyno hanes y prosiect ar faes yr Eisteddfod. Diolch hefyd i Gyngor Gwynedd am dalu am docynnau mynediad i'r maes i'r disgyblion.

I Einir Young a Gwenan Griffith, Prifysgol Bangor ac Ecoamgueddfa, Llŷn. Sut mae diolch i chi?! Rydych wedi dangos pa mor bwysig yw cofnodi a chadw'r straeon yn fyw. Heb gymorth a chefnogaeth hael yr Ecoamgueddfa drwy'r prosiect LIVE ni fyddai'r geiriau a'r cerddi ar gof a chadw. Diolch.



